



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

CANLLAWIAU

# Creu digwyddiadau sy'n cadw COVID mewn cof

Canllawiau i drefnwyr cynullïadau wedi'u rheoleiddio yn ystod pandemig y coronafeirws (COVID-19).

Cyhoeddwyd gyntaf: 10 Mehefin 2021

Diweddarwyd ddiwethaf: 30 Mehefin 2021

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/creu-digwyddiadau-syn-cadw-covid-mewn-cof-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

# Cynnwys

## 1. Cyflwyniad

---

## 2. Cyfyngiadau yng Nghymru

---

## 3. Y Canllawiau

---

## 4. Rôl awdurdodau lleol

---

## 5. Gorfodi

---

## 6. Dull asesu risg

---

## 7. Cadw pellter cymdeithasol

---

## 8. Gorchuddion wyneb

---

## 9. Cyfarpar Diogelu Personol (PPE)

---

## 10. Rheoli

---

## 11. Asesu'r risgiau

---

## 12. Asesu Capasiti

---

## 13. Diogelu'r rhai sy'n gweithio ar y safle a gwirfoddolwyr

---

## 14. Ymgynghori

---

## 15. Salwch ar y safle

---

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/creu-digwyddiadau-syn-cadw-covid-mewn-cof-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf. Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

16. Diogelu pobl

---

17. Damweiniau a chymorth cyntaf

---

18. Mynd i safle'r digwyddiad a'i adael

---

19. Glanhau

---

20. Toiledau

---

21. Symud o amgylch safle'r digwyddiad

---

22. Cydraddoldeb yn y gweithle

---

23. Cyfathrebu a hyfforddiant

---

24. Casglu data personol ar gyfer Profi Olrhain Diogelu GIG Cymru

---

25. Danfon nwyddau

---

26. Cyflenwyr a chontractwyr

---

27. Masnachwyr ar arlwywyr ac ati

---

28. Perfformiadau, gan gynnwys rhagymarferion, hyfforddiant a rheoli llwyfannau, ystafelloedd gwisgo ac ardaloedd tebyg

---

29. Cadw mynychwyr yn ddiogel

---

30. Lleoedd caeedig ac awyru

---

31. Rheoli Nifer y Mynychwyr

---

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Evch i <https://llyw.cymru/creu-digwyddiadau-syn-cadw-covid-mewn-cof-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.  
Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

## 32. Trafnidiaeth i fynychwyr

---

## 33. Ardaloedd eistedd

---

## 34. Mynedfeydd ac allanfeydd

---

## 35. Allanfa frys

---

## 36. Sicrwydd i'r gymuned

---

## Atodiad 1: ystyriaethau ar gyfer digwyddiadau sy'n cynnwys anifeiliaid a chylchoedd sioe

---

## Atodiad 2: diffiniadau

---

## Atodiad 3: Canllawiau Eraill

---

# 1. Cyflwyniad

Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith enfawr ar fywyd y cyhoedd, mae wedi achosi degau ar filoedd o farwolaethau ac wedi rhoi bywydau mewn perygl. Er mwyn lleihau'r risgiau i iechyd y cyhoedd, cyflwynodd Llywodraeth Cymru nifer o fesurau i ddiogelu'r boblogaeth. Amlinellodd **Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020**, (OS 2020/Cy335) (fel y'u diwygiwyd) gyfyngiadau a gofynion y mae'n rhaid cydymffurfio â nhw mewn perthynas â chynulliadau a digwyddiadau wedi'u trefnu. Mae'r cyfeiriadau yn y canllawiau hyn at "y Rheoliadau" yn ymwneud â'r Rheoliadau hyn oni nodir fel arall.

## Cynulliadau a Digwyddiadau sydd "wedi'u Rheoleiddio"

Y term a ddefnyddir yn y Rheoliadau ar gyfer y mathau hyn o weithgareddau yw

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/creu-digwyddiadau-syn-cadw-covid-mewn-cof-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

cynullïadau neu ddigwyddiadau sydd "wedi'u rheoleiddio". Mae Rheoliad 57(7) yn nodi ystyr wedi'i rheoleiddio yn y cyd-destun hwn ac mae'n cynnwys lle mae digwyddiad wedi'i drefnu gan fusnes, elusen, clwb, cymdeithas genedlaethol neu gorff cyhoeddus arall a fydd yn ymgymryd ag asesiad risg ac yn cymryd pob mesur rhesymol i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws a'i ledaenu.

## Cynullïadau wedi'u Rheoleiddio

Wedi bodloni gofynion rheoliad 57(7). Gall cynullïadau wedi'u rheoleiddio gwmpasu ystod eang o weithgareddau y mae modd i bobl o unrhyw oedran eu mynychu. Gallai'r gweithgareddau hyn gynnwys rhai y cyfeiriwyd atynt yn flaenorol fel gweithgareddau wedi'u trefnu a gallant gynnwys pethau fel dosbarthiadau ymarfer corff, gweithgareddau chwaraeon tîm wedi'u trefnu ar gyfer datblygiad a llesiant plant, teithiau tywys ac eraill.

## Digwyddiadau wedi'u Rheoleiddio

Gellir gwahaniaethu rhwng digwyddiad wedi'i rheoleiddio a chynullïadau wedi'u rheoleiddio eraill drwy ei ddynodi'n achlysur, sy'n cael ei drefnu neu ei amserlennu at ddiben penodol, a lle mae unrhyw nifer o bobl yn yr un man at y diben hwnnw, p'un a ydynt yn cymryd rhan mewn cynullïad yn y digwyddiad ai peidio.

Bydd y niferoedd a ganiateir i fynychu digwyddiad penodol o'r math hwn yn cael eu pennu yn ôl maint y lleoliad, yr asesiad risg a'r mesurau rhesymol, sy'n cynnwys sicrhau bod modd cynnal pellter cymdeithasol o 2m. Yr uchafswm nifer a ganiateir yn yr awyr agored yn y mathau hyn o ddigwyddiadau yw 4,000 o bobl ar eu traed a 10,000 o bobl ar eu heistedd.

Efallai y bydd deddfwriaeth arall hefyd yn gymwys yn dibynnu ar natur y digwyddiad.

Cyfrifoldeb trefnwyr y digwyddiad yw sicrhau eu bod yn glynu wrth y cyfreithiau cyfredol yng Nghymru sy'n gymwys i'r digwyddiad dan sylw a sylwer y gallai'r rhain newid o bryd i'w gilydd. Gellir gweld gwybodaeth am lefel y rhybudd sydd

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Evch i <https://llyw.cymru/creu-digwyddiadau-syn-cadw-covid-mewn-cof-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf. Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

ar waith ac unrhyw drefniadau trosiannol yma: [Lefelau rhybudd COVID-19](#)

Mae'r ddogfen hon wedi'i chynllunio i helpu pawb sy'n trefnu, yn mynychu ac yn rheoleiddio digwyddiadau dan do ac yn yr awyr agored yng Nghymru i ddeall sut i weithredu *yn ystod y pandemig hwn* a lleihau'r risgiau i gyflogeion, contractwyr (gan gynnwys y rhai sy'n hunangyflogedig), gwirfoddolwyr a'r rhai sy'n bresennol yn y digwyddiadau. Mae'r canllawiau hyn hefyd yn tynnu sylw at rai o'r cyfyngiadau a'r gofynion cyfreithiol sy'n gymwys i ddigwyddiadau wedi'u trefnu.

Wrth ddatblygu cynigion ar gyfer digwyddiadau, rhaid i drefnydd y digwyddiad gynnal asesiad risg a rhaid cydymffurfio â'r canlynol:

1. Rheoliad 16 (gofyniad i gymryd pob mesur rhesymol i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws) gan gynnwys cadw pellter cymdeithasol
2. Rheoliad 18 (canllawiau ynghylch cymryd mesurau rhesymol).

Rhaid i'r asesiad risg fodloni gofynion rheoliad 3 o Reoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 (p'un a fyddai'r person a oedd yn ei gynnal fel arall yn ddarostyngedig i'r rheoliad hwnnw ai peidio).

Wrth wneud hynny, dylai'r trefnydd roi sylw penodol i fannau cyfyng yn y lleoliad/safle a allai gynnig mwy o gyfle i drosglwyddo. Ar gyfer yr ardaloedd risg uwch hynny lle gallai fod yn fwy anodd cadw pellter cymdeithasol, dylai'r trefnwyr sicrhau bod mesurau lliniaru ychwanegol ar waith. Er y bydd y mesurau lliniaru yn benodol i'r digwyddiad a'r lleoliad, dylai hyn gynnwys casglu data llawn ar y staff a'r mynychwyr ar y safle ar gyfer gwasanaeth Profi Orlhain a Diogelu'r GIG yng Nghymru a chyfathrebu/arwyddion a marciau ar y llawr cyn cyrraedd safle'r digwyddiad ac ar safle'r digwyddiad i bwysleisio'r angen i gadw'r pellter cymdeithasol o 2m i ddiogelu eu hunain a phobl eraill.

Lle na ellir rhoi mesurau lliniaru ar waith na rheoli risgiau'n effeithiol, gan gynnwys sicrhau bod mynychwyr yn cadw pellter cymdeithasol, ni ddylai'r digwyddiadau hynny nac elfennau o'r digwyddiadau hynny gael eu cynnal. Mewn rhai achosion, yn rhinwedd rheoliad 16, mesur rhesymol fydd peidio â pharhau â rhai gweithgareddau nac agor rhai rhannau o'r lleoliad. Os dyna'r casgliad, yn dilyn yr asesiad risg, yna rhaid cymryd y mesur rhesymol hwnnw. (Bydd yn rhaid rhoi sylw hefyd i'r angen i gydymffurfio ag Adran 149 o Ddeddf

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Evch i <https://llyw.cymru/creu-digwyddiadau-syn-cadw-covid-mewn-cof-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf. Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cydraddoldeb 2010. Gweler hefyd: [22 Cydraddoldeb yn y gweithle](#)).

Os oes angen, (gweler isod) dylai'r trefnwyr gysylltu'n gynnar â'r Awdurdod Lleol yn yr ardal lle mae disgwyl i ddigwyddiad gael ei gynnal i gadarnhau a oes unrhyw gyfyngiadau lleol ai peidio. Cynghorir trefnwyr digwyddiadau yn gryf hefyd i gysylltu'n gynnar â'r Cyfarwyddwr neu'r Pennaeth Gwasanaeth perthnasol yn yr Awdurdod Lleol sy'n cwmpasu safle'r digwyddiad ac sy'n gyfrifol am iechyd y cyhoedd yn yr ardal leol, yn ogystal â'r Grŵp Cynghori ar Ddiogelwch Lleol (neu grŵp lleol cyfatebol).

Mae gan awdurdodau lleol bwerau i atal digwyddiadau rhag digwydd os teimlir eu bod yn anniogel neu os ydynt yn cyflwyno risg i iechyd y cyhoedd o ran y rhai sydd naill ai'n gweithio ar y safle neu'r cyhoedd.

## 2. Cyfyngiadau yng Nghymru

Gellir dod o hyd i'r cynllun lefel rhybudd cyfredol i Gymru yma: [Lefelau rhybudd COVID-19](#)

Mae'r penderfyniadau diweddar a gododd o broses Adolygiad 21 Diwrnod Llywodraeth Cymru wedi arwain at lacio cyfyngiadau'n ymwneud â digwyddiadau sy'n nodi y gellir caniatáu cynulliadau wedi'u rheoleiddio (gan gynnwys gweithgareddau wedi'u trefnu a phriodasau) a digwyddiadau wedi eu rheoleiddio ond dim ond yn yr awyr agored ac yn amodol ar reolau mesurau rhesymol. Mae'r cyfyngiadau fel a ganlyn:

- Digwyddiadau wedi'u Rheoleiddio (awyr agored) lle mae'r mynychwyr yn eistedd fel rheol: uchafswm o 10,000 o fynychwyr
- Digwyddiadau wedi'u rheoleiddio eraill (awyr agored) – h.y.: ddim yn eistedd. Digwyddiadau lle mae pobl ar eu traed/yn symud: hyd at uchafswm o 4,000 o fynychwyr

Er mwyn osgoi amheuaeth, oni bai bod pawb yn y digwyddiad yn eistedd fel rheol, uchafswm y mynychwyr yw 4,000. Ar gyfer digwyddiadau o 10,000 ar eu heistedd, ni ellir ychwanegu 4,000 o bobl eraill ar eu traed/yn symud ac ni all digwyddiad gynnwys 6,000 ar eu heistedd a 4,000 ar eu traed.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Evch i <https://llyw.cymru/creu-digwyddiadau-syn-cadw-covid-mewn-cof-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf. Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Nid yw'r cyfyngiadau uchod yn cynnwys y rhai sy'n gweithio neu'n darparu gwasanaethau gwirfoddol mewn digwyddiadau.

Yn achos digwyddiadau awyr agored, mae'r rheoliadau hefyd yn gymwys i unrhyw ddarpariaeth lletygarwch arfaethedig a gynigir yn eu sgil, ond, os darperir bwyd a diodydd, gellir eu harchebu a'u casglu dan do, gyda mesurau lliniaru llawn ar waith (cadw pellter mewn ciwiau, gorchuddion wyneb ac ati) a mynd â nhw i'w bwyta neu i'w hyfed yn yr awyr agored.

Mae'r canllawiau hyn ond yn gymwys i ddiwyddiadau a ganiateir o dan y Rheoliadau. Mae'r cyfyngiadau a'r gofynion cyfreithiol yn amrywio yn dibynnu ar y lefel rhybudd gyfredol ac unrhyw drefniadau trosiannol a allai fod ar waith o bryd i'w gilydd, a rhaid i drefnwyr digwyddiadau a/neu berchnogion lleoliadau, sy'n gyfrifol am y safle lle y caiff y digwyddiad ei gynnal sicrhau bod y ddeddfwriaeth briodol yn cael ei dilyn.

### 3. Y Canllawiau

Gwneir yr agweddau ar y canllawiau hyn sy'n ymwneud â'r dyletswyddau i gymryd mesurau rhesymol o dan reoliad 18 o **Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020**, ac mae'n gymwys i bob un o'r digwyddiadau wedi'u trefnu sy'n dod o dan y Rheoliadau hynny. Rhaid i drefnwyr digwyddiadau sy'n gyfrifol am y safle a/neu berchnogion y lleoliad lle bydd y digwyddiad yn cael ei gynnal, o dan y ddeddfwriaeth, ystyried yr agweddau hynny ar y canllawiau hyn.

Dylid darllen y canllawiau cyffredinol hyn ar y cyd â'r canllawiau penodol i'r sector digwyddiadau sy'n cael eu croesgyfeirio yn y ddogfen hon, gan gynnwys:

- **The Purple Guide**
- **Canllawiau ar Wyliau**
- **Canllaw ar Ddiogelwch mewn Meysydd Chwaraeon**
- **e-ganllaw AEV**
- **Cymdeithas y Diwydiant Cyfarfodydd**
- **Y Gymdeithas Trefnwyr Digwyddiadau**
- **UKHospitality guidance**

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/creu-digwyddiadau-syn-cadw-covid-mewn-cof-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf. Gwybdaeth am [hawlfraint](#).



- **Pecyn Cymorth i Syrcasau**
- **Canllawiau i Siopau Manwerthu**
- **Gwasanaeth bwyd (gan gynnwys cludfwyd)**
- **Canllawiau i'r Celfyddydau Perfformio**
- **Canllawiau'r Economi Ymwelwyr**
- **Chwaraeon Cymru**
- **Canllawiau i'r Celfyddydau Perfformio**

Sylwch: efallai nad yw'r canllawiau uchod i sectorau yn adlewyrchu gofynion statudol lleol a dylid eu hystyried yng nghyd-destun y sefyllfa gyfreithiol benodol yng Nghymru, lle gallai'r cyfyngiadau a'r gofynion fod yn wahanol i weddill y DU.

Yn achos digwyddiadau chwaraeon penodol, efallai y bydd hefyd angen ystyried unrhyw ganllawiau, os oes rhai ar gael, gan y Corff Llywodraethu Cenedlaethol perthnasol i Gymru.

Gan fod y digwyddiadau a nodir yn **Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020** ar sawl ffurf, mae'r canllawiau hyn yn seiliedig ar ddull asesiad risg COVID a ddylai gael ei gymhwyso at bob math o ddigwyddiad, beth bynnag fo'r niferoedd dan sylw.

Mae Rheoliad 57(7) a Rheoliad 16(1) o'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i drefnwyr digwyddiadau gynnal asesiad penodol o'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws ar safle'r digwyddiad, er mwyn lleihau'r risg honno i'r eithaf. Wrth gynnal yr asesiad risg hwn, rhaid i'r trefnwyr ymgynghori â'r bobl sy'n gweithio ar y safle neu eu cynrychiolwyr. Os caiff y digwyddiad wedi ei reoleiddio neu gynulliad wedi ei reoleiddio ei gynnal ar y safle a fyddai fel rheol yn cael ei ystyried yn safle wedi ei reoleiddio, dylai'r trefnydd hefyd ymgynghori â'r person cyfrifol sydd fel arfer yn gyfrifol am y safle hwnnw ac y bydd hefyd ddyletswyddau arno o dan reoliad 16.

Cydnabyddir na fydd rhai digwyddiadau, sy'n risg uwch eu natur, yn cael caniatâd i gael eu cynnal o bosibl hyd nes i'r cyfyngiadau gael eu codi ymhellach. Fodd bynnag, o dan **Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020**, mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i roi awdurdod i ddigwyddiad gael ei gynnal er gwaetha'r ffaith y byddai nifer y mynychwyr yn mynd dros y terfynau a ragnodir gan y Lefel Rhybudd gymwys ar

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Evch i <https://llyw.cymru/creu-digwyddiadau-syn-cadw-covid-mewn-cof-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf. Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

y pryd.

## 4. Rôl awdurdodau lleol

Mae gan Awdurdodau Lleol rôl bwysig yn y gwaith o helpu i sicrhau bod digwyddiadau'n cael eu cynnal unwaith eto yn ddiogel. Fel arfer, maent yn gyfrifol am ystyried ceisiadau i gynnal digwyddiadau wedi'u trefnu trwyddedig penodol yn eu hardal lleol. Maent yn gwneud penderfyniadau o ran p'un a ddylent ganiatáu i ddigwyddiad gael ei gynnal fesul achos, gan wneud hynny, nawr, drwy roi ystyriaeth i risgiau COVID i iechyd y cyhoedd a'r mesurau lliniaru arfaethedig (gan gynnwys asesiad risg COVID priodol). Mae hyn yn ogystal â'r prosesau statudol arferol a'r ystyriaethau ehangach mewn perthynas â'r buddiannau economaidd a chymdeithasol y mae digwyddiadau'n eu cynnig i gymunedau lleol.

Ystyriwch yr holl wybodaeth sydd ar gael gan yr Awdurdod Lleol mewn perthynas â chynllunio digwyddiadau a dechreuwch gynllunio cyn gynted â phosibl. Lle bydd angen cyngor ac ymgynghori, po gyntaf y ceisir y rhain, mwyaf i gyd o amser fydd ar gael i drafod y dewisiadau, gan sicrhau'r sail am gytundeb i fwrw ymlaen yn unol â'r prosesau statudol.

Mae Awdurdodau Lleol yn amrywio o ran yr amser sy'n ofynnol iddynt ystyried cynigion ar gyfer digwyddiadau, felly mae angen i'r trefnwyr sicrhau eu bod yn ymwybodol o drefniadau lleol. Ar gyfer rhai digwyddiadau, gall y cyfnod paratoi fod cyhyd â chwe mis.

Dylai trefnwyr digwyddiadau ddefnyddio'r canllawiau hyn ochr yn ochr ag unrhyw gyngor cysylltiedig ar ddigwyddiadau sydd ar gael ar wefan/gwefannau'r Awdurdod Lleol ac unrhyw weithdrefnau hysbysu – maent fel arfer ar wefan yr Awdurdod Lleol lle mae disgwyl i'r digwyddiad gael ei gynnal.

Pan gaiff Awdurdodau Lleol eu hysbysu bod trefnydd am gynnal digwyddiad, dylai'r Awdurdod Lleol gadarnhau yn y lle cyntaf a yw'r digwyddiad dan sylw o'r mathau a ganiateir o dan [reolau diweddaraf Llywodraeth Cymru](#).

Bydd yr Awdurdod Lleol yn adolygu asesiad risg trefnydd y digwyddiad, os oes

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://llyw.cymru/creu-digwyddiadau-syn-cadw-covid-mewn-cof-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf. Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

angen (gweler isod: 6: *Dull Asesu Risgiau*) a, lle bo'n ymarferol, gall roi cyngor i'r trefnydd ar sut i reoli'r digwyddiad a lleihau'r risgiau i'r cyhoedd ar yr un pryd.

Lle mae gan Awdurdodau Lleol Grŵp Cynghori ar Ddiogelwch neu grŵp cyfatebol, sy'n dwyn ynghyd yr holl randdeiliaid â diddordeb, gan gynnwys cynrychiolwyr iechedd y cyhoedd lleol fel y bo'n ofynnol, bydd y grŵp hwn hefyd yn cael ei gynnwys yn y broses o ystyried cynnig y digwyddiad. Fel uchod, os bydd angen ymgynghori â'r Awdurdod Lleol, cynghorir trefnwyr digwyddiadau i ddechrau ar y broses hon ar gam cynnar. Yn ddefnyddol, dylai'r Cyfarwyddwr/Pennaeth Gwasanaeth perthnasol yn yr Awdurdod Lleol sy'n gyfrifol am iechedd y cyhoedd yn lleol gael ei gynnwys hefyd.

Gall Awdurdodau Lleol ganiatáu i'r digwyddiad gael ei gynnal ar yr amod eu bod wedi'u bodloni na fydd yn peryglu iechedd y cyhoedd a bod y trefnwyr yn glynu wrth yr holl ofynion cyfreithiol ac yn ystyried y canllawiau perthnasol.

Os bydd gan Awdurdodau Lleol bryderon ynglŷn â digwyddiad, dylent drafod y pryderon hynny â threfnydd y digwyddiad cyn gynted â phosibl a, lle bynnag y bo'n bosibl, roi gwybod pa gamau a allai gael eu cymryd i liniaru unrhyw risgiau neu bryderon er mwyn i'r digwyddiad fynd yn ei flaen.

Os bydd Awdurdod yn penderfynu na all digwyddiad gael ei gynnal, dylai rannu ei resymau dros beidio â derbyn y cais â threfnydd y digwyddiad er mwyn iddo allu deall ei resymau dros wneud hynny.

Os bydd yn ofynnol, mae gan Weinidogion Cymru bwerau o dan Atodlen 22 i Ddeddf Coronafeirws 2020 i gau lleoliadau sy'n cynnal cynulliadau mawr neu wahardd rhai digwyddiadau (neu fathau o ddigwyddiadau) rhag cael eu cynnal. Ceir pwerau hefyd o dan reoliad 31 o **Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif. 5) (Cymru 2020)** (fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd) i gyfyngu ar fynediad i le cyhoeddus.

## 5. Gorfodi

Lle bydd awdurdod, fel yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE – a fyddai'n cymryd camau o bosibl o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/creu-digwyddiadau-syn-cadw-covid-mewn-cof-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf. Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

1974) neu Awdurdod Lleol, yn nodi trefnwyr neu fusnesau nad ydynt yn cymryd camau i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth na'r canllawiau iechyd y cyhoedd perthnasol i reoli risgiau i iechyd y cyhoedd, mae ganddo bwerau i gymryd amrywiol gamau i wella'r ffordd y rheolir risgiau yn y gweithle. Er enghraifft, byddai hyn yn cynnwys achosion lle mae cyflogwyr yn methu â chymryd camau priodol i sicrhau bod mesurau cadw **pellter cymdeithasol** ar waith mewn digwyddiad wedi'i drefnu.

Gallai methu â chwblhau asesiad risg (fel isod) sy'n ystyried COVID-19 yn briodol, neu gwblhau asesiad risg ond methu â rhoi mesurau digonol neu effeithiol ar waith i reoli'r risg o drosglwyddo COVID-19, fod yn gyfystyr â thorcyfraith iechyd a diogelwch. Mae'r camau gweithredu y gall yr awdurdod gorfodi eu cymryd yn cynnwys rhoi cyngor i drefnwyr/busnesau er mwyn eu helpu i gyrraedd y safon ofynnol, hyd at gyhoeddi hysbysiadau gorfodi er mwyn helpu i sicrhau gwelliannau.

Gall achosion difrifol o dorri rheoliadau a methiant i gydymffurfio â'r hysbysiadau gorfodi fod yn gyfystyr â chyflawni trosedd, gyda dirwyon sylweddol. Ceir system orfodi ehangach hefyd, sy'n cynnwys rhwymedigaeth ac amodau penodol ar gyfer safleoedd trwyddedig.

Mae disgwyl i gyflogwyr, gan gynnwys trefnwyr digwyddiadau, ymateb yn amserol i unrhyw gyngor neu hysbysiadau a roddir gan awdurdodau gorfodi, a rhaid iddynt wneud hynny o fewn unrhyw derfyn amser a osodir gan yr awdurdodau gorfodi. Cydnabyddir bod y mwyafrif helaeth o gyflogwyr yn gyfrifol a byddant yn ymuno â brwydr Cymru yn erbyn COVID-19 drwy weithio gyda Llywodraeth Cymru a'u cyrff sector i ddiogelu eu gweithwyr a'r cyhoedd. Fodd bynnag, mae arolygwyr yn cynnal gwiriadau cydymffurfiaeth yn genedlaethol i sicrhau bod pob cyflogwr yn cymryd y camau angenrheidiol.

## 6. Dull asesu risg

Fel y nodwyd uchod, mae Rheoliad 57(7) a Rheoliad 16(1) o'r Rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i drefnwyr digwyddiadau gynnal asesiad penodol o'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws ar safle'r digwyddiad, er mwyn lleihau'r risg honno i'r eithaf. Wrth gynnal yr asesiad risg hwn, rhaid i'r trefnwyr ymgynghori

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Evch i <https://llyw.cymru/creu-digwyddiadau-syn-cadw-covid-mewn-cof-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf. Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

â'r bobl sy'n gweithio ar y safle, neu eu cynrychiolwyr a rhoi pob mesur rhesymol ar waith, sy'n cynnwys mesurau cadw pellter cymdeithasol, gan roi sylw penodol i fannau cyfyng yn y lleoliad/safle a allai gynnig mwy o gyfle i drosglwyddo.

Ar gyfer yr ardaloedd risg uwch hynny lle gallai fod yn fwy anodd cadw pellter cymdeithasol, dylai'r trefnwyr sicrhau bod mesurau lliniaru ychwanegol ar waith. Er y bydd y mesurau lliniaru yn benodol i'r digwyddiad a'r lleoliad, dylai hyn gynnwys casglu data llawn ar y staff a'r mynychwyr ar y safle ar gyfer y gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu a chyfathrebu/arwyddion a marciau ar y llawr cyn cyrraedd safle'r digwyddiad ac ar safle'r digwyddiad i bwysleisio'r angen i gadw'r pellter cymdeithasol o 2m i ddiogelu eu hunain a phobl eraill. Lle na ellir rhoi mesurau lliniaru ar waith na rheoli risgiau'n effeithiol, gan gynnwys sicrhau bod mynychwyr yn cadw pellter cymdeithasol, ni ddylai'r digwyddiadau hynny nac elfennau o'r digwyddiadau hynny gael eu cynnal.

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu canllawiau bras ynghylch sut y gellir trefnu digwyddiadau yn gyfreithlon gan leihau'r risg o ledaenu COVID-19 i'r eithaf. (Gweler hefyd: **11: Asesu'r Risgiau**).

Er ei bod yn cynnig awgrymiadau ymarferol o ran sut y mae modd cynnal digwyddiadau, cydnabyddir bod pob digwyddiad yn wahanol a bydd angen i'r trefnwyr wneud eu dadansoddiad cyfreithiol a'u hasesiadau risg eu hunain i nodi'r ffordd orau o leihau'r risgiau i bawb dan sylw yn eu digwyddiad penodol hwythau i'r eithaf, o'r rhai sy'n gweithio iddynt, y gwirfoddolwyr a'r contractwyr i'r mynychwyr. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r canllawiau hyn yn ymwneud â'r gweithgareddau a'r digwyddiadau a ganiateir o dan y gyfraith yng Nghymru yn unig.

Nid yw'r canllawiau hyn yn disodli unrhyw rwymedigaethau cyfreithiol mewn perthynas â chyfyngiadau COVID-19, iechyd a diogelwch, cyfraith cyflogaeth na chyfraith cydraddoldeb ac mae'n bwysig, fel busnes, unigolyn neu gyflogwr, fod y trefnwyr yn cydymffurfio â'u rhwymedigaethau cyfreithiol, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag unigolion â nodweddion gwarchoddedig. Fel y nodwyd yn flaenorol, dylid cynnal asesiad risg o COVID-19 yn ychwanegol at yr asesiadau risg iechyd a diogelwch a thân arferol y mae'n ofynnol i drefnwyr digwyddiadau eu cynnal.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Evch i <https://llyw.cymru/creu-digwyddiadau-syn-cadw-covid-mewn-cof-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf. Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Wrth drefnu digwyddiadau, dylai'r trefnwyr ystyried canllawiau perthnasol eraill, er enghraifft, wrth drefnu perfformiadau byw, dylent droi at [Ganllawiau Celfyddydau Perfformio](#) Llywodraeth Cymru.

*Dylid nodi hefyd efallai na all rhai digwyddiadau mawr lle mae grwpiau mawr yn tueddu i grynhoi o gwmpas ardal – fel cyngherddau a gwyliau – fynd yn eu blaen ar hyn o bryd oherwydd y cyfyngiadau lleol, terfynau ar gapasiti a gofynion cadw pellter cymdeithasol. Gellir dod o hyd i ganllawiau'r diwydiant ar gyfer cyngherddau a gwyliau yma: [New Covid-19 planning guidance published for UK festivals](#). Gweler hefyd ganllawiau i Leoliadau yma: [Cyrchfannau a lleoliadau diwylliant a threftadaeth: Canllawiau ar gyfer dychwelyd yn raddol](#).*

Wrth greu asesiad risg ymwybodol o COVID, dylai'r trefnwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am leoliadau ystyried y ffactorau y tu hwnt i gyfyngiadau safle/leoliad y digwyddiad, gan gynnwys effaith gronol llawer o leoliadau yn ailagor mewn ardal fach; yr effaith y gallai'r digwyddiad ei chael ar y cyfleusterau cymunedol lleol; a'r effaith ar gludo mynychwyr, y rhai sy'n gweithio ar y safle a chyfarpar i'r digwyddiad ac oddi yno, a'r effaith bosibl y gallai yfed alcohol/bwyd/diod ei chael ar y mynychwyr. Mae hyn yn golygu gweithio gydag Awdurdodau Lleol, busnesau cyfagos a chwmnïau teithio i asesu'r risgiau hyn yn llawn ac ystyried unrhyw fesurau lliniaru ychwanegol fel y bo angen. Gallai'r rhain gynnwys:

- Lleihau'r capasiti ymhellach – hyd yn oed os oes modd darparu ar gyfer nifer penodol o bobl mewn lleoliad, efallai na fydd yn ddiogel iddynt deithio i'r lleoliad hwnnw na chael mynediad iddo.
- Rhoi amseroedd mynediad gwahanol ar y cyd â lleoliadau eraill a chymryd camau i osgoi ciwiau mewn ardaloedd cyfagos.
- Trefnu llwybrau teithio unffordd rhwng hybiau trafndiaeth a lleoliadau.
- Cynghori'r rhai sy'n mynychu i osgoi mathau penodol o drafndiaeth neu lwybrau penodol ac i osgoi ardaloedd poblog wrth deithio i'r lleoliad.
- Defnyddio negeseuon cadarn cyn cyrraedd safle'r digwyddiad ac ar safle'r digwyddiad er mwyn hysbysu'r mynychwyr, cyn ac yn ystod y digwyddiad, o arferion diogel yn y digwyddiad ac o'i gwmpas. Dylai hyn gynnwys manylion unrhyw ofyniad i ddarparu manylion adnabod neu ddata at ddibenion Profi, Olrhain a Diogelu wrth gyrraedd, os nad ydynt wedi'u casglu ymlaen llaw, er mwyn lleihau'r risgiau sy'n cael eu hachosi drwy giwio.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Evch i <https://llyw.cymru/creu-digwyddiadau-syn-cadw-covid-mewn-cof-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf. Gwybdaeth am [hawlfraint](#).



- Sicrhau bod stiwardiaid a gwirfoddolwyr yn cael y wybodaeth lawn am gynllun y lleoliad a'r mesurau lliniaru COVID sydd ar waith yn y digwyddiad i hwyluso camau gorfodi.

Mae'r canllawiau hyn yn gymwys i drefnwyr digwyddiadau yn ogystal ag unrhyw un sydd â rhyw lefel o gyfrifoldeb am y lleoliad neu'r digwyddiad, gan gynnwys cyflenwyr a chontractwyr. Lle mae mwy nag un unigolyn neu sefydliad cyfrifol – er enghraifft, perchennog/gweithredwr y lleoliad, unigolyn sydd wedi llogi'r lleoliad am gyfnod a defnyddwyr y lleoliad – bydd angen iddynt gydweithredu i sicrhau eu bod yn rhoi ystyriaeth briodol i'r canllawiau hyn.

Gan fod llawer o ddigwyddiadau'n cynnwys cymysgedd o weithgareddau, o wasanaethau arlwyio i fanwerthu, bydd angen rhoi sylw penodol i'r rheoliadau penodol a wnaed gan Weinidogion Cymru a allai fod yn gymwys i'r gweithgareddau hyn. Yn yr un modd, lle mae digwyddiadau'n cynnwys perfformiadau (gan gynnwys protestiadau), efallai y bydd rheoliadau sy'n ymwneud â'r celfyddydau perfformio yn gymwys, yn enwedig mewn perthynas â'r ffordd y dylai cynulleidfaoedd gadw pellter cymdeithasol.

Cyfrifoldeb pob trefnydd digwyddiad yw llunio asesiad risg.

## 7. Cadw pellter cymdeithasol

Mae cadw pellter cymdeithasol yn parhau'n hanfodol i greu digwyddiad ymwybodol o COVID ac mae'n gymwys i bawb sy'n ymweld â safle'r digwyddiad neu sy'n gweithio arno, gan gynnwys mynychwyr. Mae'n ofyniad cyfreithiol yng Nghymru ar hyn o bryd i drefnwyr digwyddiadau ac unigolion cyfrifol mewn perthynas â lleoliadau wedi'u rheoleiddio gymryd pob **cam rhesymol** i sicrhau'r canlynol:

1. bod pellter o 2 fetr yn cael ei gadw rhwng unrhyw un ar y safle (ac eithrio rhwng aelodau o'r un aelwyd neu ofalwr a'r unigolyn sy'n cael ei gynorthwyo gan y gofalwr);
2. lle mae'n ofynnol i bersonau aros i fynd i mewn i'r lleoliad, y cedwir pellter o 2 fetr rhyngddynt (ac eithrio rhwng aelodau o'r un aelwyd neu ofalwr a'r person sy'n cael ei gynorthwyo gan y gofalwr). Gweler **canllawiau cyfredol**

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/creu-digwyddiadau-syn-cadw-covid-mewn-cof-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf. Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

## Llywodraeth Cymru

Gan ystyried yr uchod a chan gyfeirio at bawb sy'n gweithio ar y safle, gan gynnwys gwirfoddolwyr a chontractwyr, dylai trefnwyr digwyddiadau nodi'r canlynol:

- Mae cadw pellter cymdeithasol yn gymwys i bob ardal, nid dim ond i'r man lle y bydd pobl yn treulio'r rhan fwyaf o'u hamser, ond hefyd i fynedfeydd ac allanfeydd, ystafelloedd egwyl, ffreuturau a lleoliadau tebyg. Yn aml, dyma'r ardaloedd mwyaf heriol o ran cadw pellter cymdeithasol.
- Ar gyfer yr ardaloedd risg uwch hynny lle gallai fod yn fwy anodd cadw pellter cymdeithasol, dylai'r trefnwyr sicrhau bod mesurau lliniaru ychwanegol ar waith. Er y bydd y mesurau lliniaru yn benodol i'r digwyddiad a'r lleoliad, dylai hyn gynnwys casglu data llawn ar y staff a'r mynychwyr ar y safle ar gyfer Profi, Orlhain a Diogelu a chyfathrebu cadarn/arwyddion a marciau ar y llawr cyn cyrraedd safle'r digwyddiad ac ar safle'r digwyddiad i gadw'r pellter cymdeithasol o 2m i ddiogelu eu hunain a phobl eraill.
- Rhaid i unrhyw fethiant i gymryd pob cam rhesymol i gadw pellter cymdeithasol o 2 fetr gael ei gyfiawnhau'n llawn a'i nodi yn asesiad risg y digwyddiad.
- Lle na ellir dilyn y gofyniad i gadw pellter cymdeithasol mewn perthynas â gweithgaredd penodol, dylai'r trefnwyr ystyried a yw'n rhesymol dod â'r gweithgaredd i ben neu beidio â'i gynnal. Os felly, yna rhaid cymryd y mesur rhesymol hwnnw.
- Mae'n ofynnol gwisgo **gorchuddion wyneb** mewn mannau cyhoeddus dan do.
- Dylai'r trefnwyr gymryd pob cam lliniaru rhesymol i leihau'r risg o drosglwyddo COVID rhwng y rhai sy'n gweithio ar y safle. Gallai'r camau lliniaru gynnwys:
  - Golchi/diheintio dwylo a glanhau arwynebeddau yn amlach fyth.
  - Treulio cyn lleied o amser â phosibl yn ymgymryd â'r gweithgaredd.
  - Defnyddio sgriniau neu rwystrau i wahanu pobl oddi wrth ei gilydd.
  - Defnyddio trefniadau gweithio cefn wrth gefn neu ochr i ochr (yn hytrach na wyneb yn wyneb) lle bynnag y bo'n bosibl.
  - Lleihau nifer y bobl y daw pob person i gysylltiad â nhw drwy ddefnyddio 'timau neu bartneriaid sefydlog' (er mwyn sicrhau mai gydag ychydig o

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Evch i <https://llyw.cymru/creu-digwyddiadau-syn-cadw-covid-mewn-cof-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf. Gwybdaeth am [hawlfraint](#).



bobl eraill yn unig y bydd pob person yn gweithio).

- Dylid rheoli mynedfeydd y safle i'r rhai sy'n gweithio ar y safle er mwyn sicrhau y cedwir pellter cymdeithasol.

## Yn bresennol

- Rhaid cymryd pob mesur rhesymol i sicrhau y cedwir pellter cymdeithasol bob amser rhwng mynychwyr o wahanol aelwydydd a rhwng mynychwyr a gweithwyr/perfformwyr/masnachwyr ac ati. **Canllawiau cadw pellter cymdeithasol y coronafeirws (COVID-19) i bawb yng Nghymru.**
- Rhaid i'r trefnwyr roi sylw arbennig i'r gofynion cadw pellter cymdeithasol mewn mannau lle mae pobl neu grwpiau o bobl yn rhyngweithio'n uniongyrchol â'i gilydd, fel y mynedfeydd.
- Dylai'r rhai sy'n gweithredu lleoliadau neu sy'n cynnal digwyddiadau, gymryd pob mesur rhesymol i atal cynulladau torfol rhag digwydd yn y digwyddiad. Gallai hyn ofyn am fesurau diogelwch a swyddogion rheoli ychwanegol.

## 8. Gorchuddion wyneb

Mewn rhai lleoliadau, fel ardaloedd manwerthu ac arlwyo dan do, o dan y rheoliadau, mae gwisgo gorchuddion wyneb yn orfodol, mewn mannau lle mae gan y cyhoedd fynediad o ran y **staff** a'r **cwsmeriaid**, oni bai bod ganddynt esgus rhesymol dros beidio â gwisgo un, neu os ydynt o dan 11 oed. Gall aelodau o'r cyhoedd ddiosg eu gorchuddion wyneb er mwyn bwyta ac yfed mewn ardaloedd dynodedig, ond rhaid iddynt wisgo'u gorchuddion wyneb yn syth ar ôl iddynt orffen bwyta neu yfed.

Nid yw gorchudd wyneb yr un fath â masg wyneb, fel y masgiau llawfeddygol neu'r anadlyddion a ddefnyddir gan weithwyr iechyd a gofal, sy'n cael eu gweithgynhyrchu i safon wedi'i rheoleiddio. Yn yr un modd, nid yw gorchuddion wyneb yr un fath â'r cyfarpar diogelu personol (gweler isod) a ddefnyddir i reoli risgiau fel llwch a sgeintiad mewn cyd-destun diwydiannol.

Mewn ardaloedd lle nad yw'n ofynnol gwisgo gorchuddion wyneb yn ôl y rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, fel yn yr awyr agored, dylai

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/creu-digwyddiadau-syn-cadw-covid-mewn-cof-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf. Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

trefnwyr digwyddiadau, serch hynny, ystyried a ddylent ofyn i bobl eu defnyddio fel rhan o'u hasesiad risg COVID-19 os nad oes modd rhoi mesurau lliniaru eraill ar waith.

Cofiwch y gallai gwisgo gorchudd wyneb lesteirio cyfathrebu â phobl sy'n dibynnu ar ddarllen gwefusau, mynegiant yr wyneb a sain glir. Efallai y bydd gan rai esgus rhesymol dros beidio â gwisgo un, er enghraifft, oherwydd eu hoedran neu gyflwr iechyd neu nodwedd warchoddedig arall. Gall aelodau o staff ddiosg eu gorchuddion wyneb dros dro wrth gadw'r pellter o 2 fetr er mwyn cynorthwyo unrhyw un sy'n dibynnu ar ddarllen gwefusau neu weld mynegiant yr wyneb i gyfathrebu.

Yn ogystal, mae'n ofynnol i fusnesau, gan gynnwys trefnwyr digwyddiadau, atgoffa cwsmeriaid i wisgo gorchuddion wyneb lle mae hyn yn orfodol (e.e. drwy arddangos posteri).

Caiff pobl eu hannog yn gryf i wisgo gorchudd wyneb mewn manau cyhoeddus eraill lle nad yw cadw pellter cymdeithasol yn rhesymol ymarferol a lle gallent ddod i gysylltiad â phobl nad ydynt yn cwrdd â nhw fel rheol.

Nid yw gorchuddion wyneb yn disodli ffyrdd eraill o reoli'r risg yn y gweithle, gan gynnwys lleihau'r amser sy'n cael ei dreulio mewn cysylltiad ag eraill i'r eithaf, defnyddio timau a phartneriaid sefydlog ar gyfer gwaith agos a chynyddu golchi/diheintio'r dwylo ac arwynebau. Y mesurau eraill hyn sy'n cynnig y ffyrdd gorau o reoli risgiau yn y gweithle o hyd ac felly ni ddylid defnyddio gorchuddion wyneb i ddisodli mesurau iechyd a diogelwch.

Dylai pobl dynnu eu gorchudd wyneb os gofynnir iddynt wneud hynny gan swyddogion a staff yr heddlu er mwyn iddynt allu eu hadnabod.

Dylai cyflogwyr, gan gynnwys trefnwyr digwyddiadau, helpu eu gweithwyr i ddefnyddio gorchuddion wyneb yn ddiogel. Mae hyn yn golygu rhoi'r cyfarwyddiadau canlynol i weithwyr:

- Wrth ddiosg neu wisgo gorchudd wyneb, dylid golchi dwylo'n drwyadl â dŵr a sebon am 20 eiliad neu defnyddio hylif diheintio dwylo.
- Wrth wisgo gorchudd wyneb, dylid osgoi cyffwrdd â'ch wyneb neu'ch

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://llyw.cymru/creu-digwyddiadau-syn-cadw-covid-mewn-cof-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

gorchudd wyneb, oherwydd gallech eu halogi â germau o'ch dwylo.

- Newidiwch eich gorchudd wyneb os bydd yn mynd yn llaith neu os byddwch wedi'i gyffwrdd.
- Newidiwch a golchwch eich gorchudd wyneb bob dydd.
- Os oes modd golchi'r deunydd, golchwch ef yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr. Os nad oes modd ei olchi, taflwch ef yn ofalus gyda'r gwastraff arferol nad oes modd ei ailgylchu.

Gellir creu eich gorchuddion wyneb eich hun a gallwch ddod o hyd i ganllawiau ar sut i wneud hyn yma: [Sut i wneud gorchudd wyneb 3 haen](#).

## 9. Cyfarpar Diogelu Personol (PPE)

Os oes unrhyw asesiad risg yn dangos bod angen cyfarpar diogelu personol fel mesur rhesymol, yna rhaid darparu'r rhai yn rhad ac am ddim i'r gweithwyr sydd ei angen.

Mae cyfarpar diogelu personol yn diogelu'r defnyddiwr rhag risgiau i iechyd neu ddiogelwch yn y gwaith a chânt eu gweithgynhyrchu i safon wedi'i rheoleiddio er mwyn cynnig lefel benodol o ddiogelwch i'r sawl sy'n eu gwisgo. Gall gynnwys eitemau fel helmedau diogelwch, menig, amddiffynwyr llygaid, dillad gweledd uchel, esgidiau diogelwch a harneisiau diogelwch. Mae hefyd yn cynnwys cyfarpar diogelu anadlol, fel masgiau wyneb.

Dylid parhau i gadw cyflenwadau o gyfarpar diogelu personol, gan gynnwys masgiau wyneb, ar gyfer y rhai sydd ei angen (megis gweithwyr iechyd a gofal) er mwyn eu diogelu rhag risgiau yn eu gweithleoedd a'r rhai mewn lleoliadau diwydiannol, fel y rhai a ddaw i gysylltiad â pheryglon llwch.

Lle mae'r cyfarpar hwn eisoes yn cael ei ddefnyddio gan weithwyr er mwyn eu diogelu rhag risgiau nad ydynt yn gysylltiedig â COVID-19, dylent barhau i'w defnyddio.

Ni ddylid defnyddio cyfarpar diogelu personol i ddiogelu rhag COVID-19 y tu allan i leoliadau clinigol nac wrth ymateb i achos a amheuir neu achos a gadarnhawyd o COVID-19.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Evch i <https://llyw.cymru/creu-digwyddiadau-syn-cadw-covid-mewn-cof-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf. Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

## 10. Rheoli

Dylid penodi rheolwr sydd wedi cael hyfforddiant addas i gydlynu a goruchwyllo gwaith rheoli iechyd ar y safle, gan gynnwys datblygu asesiad risg iechyd a ddylai ffurfio rhan o asesiad risg cyffredinol y digwyddiad. Gallai hyn fod o fewn cylch gwaith rheolwr diogelwch y digwyddiad, os yw wedi cael hyfforddiant addas.

Dylai trefnwyr digwyddiadau ddynodi rhywun ar lefel ddigon uchel i fod yn gyfrifol am sicrhau y cymerir yr holl gamau gweithredu diogelwch yn ymwneud â COVID a dylai'r unigolyn hwnnw gymryd rhan uniongyrchol yn y gwaith o lunio asesiad risg COVID-19. Dylai hefyd fod yn hysbys i bawb sy'n gweithio ar safle'r digwyddiad a chael ei adnabod fel y 'Swyddog COVID'.

## 11. Asesu'r risgiau

(**Gweler hefyd: 6: Dull Asesu Risg**)

Rhaid i bob digwyddiad wedi'i reoleiddio neu gynulliad wedi'i reoleiddio, boed yn fach neu'n fawr, gynnal asesiad risg manwl i nodi unrhyw faterion a allai roi pobl sy'n mynychu safle'r digwyddiad mewn unrhyw berygl. Dylai'r asesiad risg hwn ystyried y ffactorau sy'n ofynnol o dan reoliadau iechyd a diogelwch neu reoliadau tân yn ogystal â materion sy'n effeithio ar iechyd y cyhoedd. Dylai hefyd bennu pa gamau sy'n cael eu cymryd i liniaru'r holl risgiau a nodwyd, gan gynnwys y risgiau ychwanegol mewn perthynas â COVID-19 (a ddylai ffurfio ei asesiad risg ei hun).

Fel rhan o'r asesiad risg hwn, dylid ystyried amgylchiadau penodol pobl sydd â nodweddion gwarchodedig. Rhaid cynnal yr asesiad risg penodol drwy ymgynghori â gweithwyr neu eu hundebau neu eu cynrychiolwyr perthnasol.

Mae'n ofynnol i drefnwyr digwyddiadau asesu a rheoli risgiau COVID-19 ac yn achos digwyddiadau, dylai hyn ystyried yr holl bobl sy'n mynychu safle'r digwyddiad, gan gynnwys gweithwyr, gwirfoddolwyr, gyrwyr cludo nwyddau, mynychwyr a'r cyhoedd.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Evch i <https://llyw.cymru/creu-digwyddiadau-syn-cadw-covid-mewn-cof-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf. Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Mae gan gyflogwyr gyfrifoldeb cyfreithiol i ddiogelu gweithwyr a phobl eraill rhag risg i'w hiechyd a'u diogelwch. Mae hyn yn golygu bod angen i'r trefnwyr feddwl am y risgiau y maent yn eu hwynebu a gwneud popeth sy'n rhesymol ymarferol i'w lleihau i'r eithaf, gan gydnabod nad yw'n bosibl dileu'r risg o drosglwyddo COVID-19 yn llwyr.

Dylid hefyd ystyried goblygiadau diogelwch unrhyw benderfyniadau a mesurau rheoli a roddir ar waith, a allai gyflwyno risgiau diogelwch newydd neu wahanol a allai ofyn am fesurau lliniaru pellach. Gallai hyn ymwneud ag amrywio lefel y gwiriadau a wneir mewn perthynas â gwylwyr/mynychwyr/cyfranogwyr i gael mynediad i ddigwyddiad, er enghraifft, y mae angen iddynt fod yn unol â lefel y bygythiad cyfredol.

Nid creu swm enfawr o waith papur yw bwriad yr asesiad risg, ond yn hytrach nodi mesurau synhwyrol i reoli'r risg o drosglwyddo COVID-19.

Yn ôl y gyfraith, nid oes rhaid i'r rhai â llai na phump o weithwyr neu'r rhai sy'n hunangyflogedig roi unrhyw beth ar bapur fel rhan o'u hasesiad risg ond fe'u cynghorir i wneud hynny er mwyn iddynt allu dangos bod yr holl risgiau wedi'u hystyried pe bai unrhyw beth yn mynd o'i le.

Dylid trin asesiadau risg bob amser fel dogfennau byw y mae angen cyfeirio atynt a'u diweddarau/newid wrth i ddigwyddiadau ddatblygu.

Mae offer rhyngweithiol ar gael i helpu i ysgrifennu asesiad risg, gan gynnwys y canlynol:

- [Rheoli risgiau ac asesu risgiau yn y gwaith](#)
- [Gweithio'n ddiogel yn ystod brigiad o achosion coronafeirws \(COVID-19\).](#)
- [mia COVID-19: Safety Resources](#)

## 12. Asesu Capasiti

Deall bod capasiti diogel lleoliad/safle digwyddiad yn rhan hollbwysig o'r asesiad risg. Bydd asesu capasiti'r lleoliad/safle yn dibynnu ar nifer o ffactorau, o'r math

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/creu-digwyddiadau-syn-cadw-covid-mewn-cof-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf. Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

o ddigwyddiad i'r cynllun a gwneud y gorau o awyru, ond bydd angen hefyd gadarnhau faint o bobl y gall y lleoliad eu cynnwys er mwyn eu galluogi i gadw'r pellter cymdeithasol gofynnol.

- Dylai'r capasiti gydymffurfio â Rheoliadau/canllawiau cyfredol Llywodraeth Cymru (gweler uchod).
- Lle mae lleoliad wedi'i gynllunio at ddefnydd cymysg, fel ystafell gyfarfod mewn gwesty, dylid cyfrifo'r capasiti o ran yr arwynebedd lle y cynhelir y digwyddiad, gan ganiatáu ar gyfer pellter o 2 fetr rhwng pob person, ond gan ystyried unrhyw effaith ar ardaloedd eraill, fel mynedfeydd ac unrhyw gyfleusterau a rennir (Gweler hefyd: **7: Cadw pellter cymdeithasol**).
- Bydd angen addasu'r capasiti i ganiatáu ar gyfer unrhyw fannau cyfyng neu ardaloedd hynod brysur yn yr ardal a ddefnyddir, fel toiledau.
- Dylid hefyd ystyried gweithgareddau eraill sy'n mynd rhagddynt o bosibl yn yr un lleoliad er mwyn osgoi torfeydd. Gall hyn gynnwys, er enghraifft:
  - Cysylltu â'r lleoliad a threfnwyr digwyddiadau eraill er mwyn osgoi tagfeydd.
  - Addasu amserau'r digwyddiadau i osgoi cael pobl yn cyrraedd gwahanol ddigwyddiadau ar yr un pryd.
  - Trefnu rhaglenni digwyddiadau er mwyn osgoi cyd-daro rhwng egwylliau.
  - Trefnu bod gwahanol fynedfeydd ac allanfeydd i bob digwyddiad.

## 13. Diogelu'r rhai sy'n gweithio ar y safle a gwirfoddolwyr

Mae dyletswydd ar gyflogwyr, gan gynnwys trefnwyr digwyddiadau, i leihau'r risg yn y gweithle i'r lefel isaf bosibl drwy gymryd mesurau diogelu ataliol. Dylai cyflogwyr weithio gydag unrhyw gyflogwyr neu gontractwyr eraill sy'n rhannu'r gweithle er mwyn sicrhau y caiff iechyd a diogelwch pawb eu diogelu.

Fel o'r blaen, dylai trefnwyr, lleoliadau, cyflenwyr, contractwyr a masnachwyr ddilyn **canllawiau Llywodraeth Cymru** sy'n benodol i'r sector priodol ar gyfer gweithio mewn digwyddiadau.

Dylai asesiadau risg ystyried yn benodol ddiogelwch y rhai sy'n gweithio'n agos

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/creu-digwyddiadau-syn-cadw-covid-mewn-cof-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf. Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

â mynychwyr digwyddiadau.

Dylai trefnwyr digwyddiadau hefyd ystyried ymgynghori ag unrhyw undebau perthnasol sy'n cynrychioli eu gweithlu er mwyn cael help gyda materion sy'n effeithio ar weithwyr ac i gael canllawiau penodol i'r sector.

## 14. Ymgynghori

Mae gan gyflogwyr ddyletswydd i ymgynghori â'u gweithlu ar faterion iechyd a diogelwch, gan gynnwys y risgiau a nodwyd a'r mesurau ataliol a diogelu sy'n cael eu rhoi ar waith mewn perthynas â COVID-19.

Dylai trefnwyr digwyddiadau hefyd ystyried ymgynghori ag unrhyw undebau perthnasol sy'n cynrychioli eu gweithlu i gael help gyda materion sy'n effeithio ar y rhai sy'n gweithio iddynt ac ar gyfer canllawiau penodol i'r sector.

Gellir dod o hyd i [ganllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yma](#).

## 15. Salwch ar y safle

Ni ddylai neb sy'n dangos unrhyw un o'r symptomau, sy'n byw gyda rhywun sydd â symptomau neu sydd wedi'i ddynodi'n gyswllt i rywun sydd â COVID-19 fynychu'r digwyddiad. Dylai unrhyw un sy'n gweithio ar safle'r digwyddiad ac sy'n dechrau teimlo'n anhwylyd neu sy'n dangos unrhyw un o symptomau COVID-19 gael ei ynysu'n syth oddi wrth y gweithwyr eraill a naill ai aros ar ei ben ei hun hyd nes y gellir cael cymorth meddygol neu adael y safle'n gyfan gwbl er mwyn dychwelyd adref yn syth a hunanyysu.

Gallai trefnwyr digwyddiadau ystyried creu ardal ynysu/cwarantîn (yn ddelfrydol yn agos at y cyfleusterau meddygol) o ddechrau'r adeiladu hyd at orffen datgymalu. Dylid ystyried darparu staff meddygol â chymwysterau addas yn y manau hyn.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://llyw.cymru/creu-digwyddiadau-syn-cadw-covid-mewn-cof-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf. Gwybdaeth am [hawlfraint](#).



Dylai unrhyw un sy'n teimlo'n anhwylyd gyda symptomau COVID hunanyysu yn syth a threfnu [prawf](#).

Gweler:

- Gellir dod o hyd i'r canllawiau cyfredol yma mewn perthynas â thâl salwch statudol yn sgil COVID-19: [Cynllun ychwanegiad at dâl salwch statudol ar gyfer COVID-19](#)
- [Canllawiau ar hunanyysu](#)

## 16. Diogelu pobl

Gall pobl sy'n [eithriadol o agored i niwed clinigol a phobl sydd mewn mwy o berygl](#) fynd i'r gwaith ar yr amod bod y gweithle [yn ddiogel o ran COVID-19](#), ond dylent barhau i weithio gartref lle bynnag y bo modd.

Dylid cymryd gofal ychwanegol lle mae angen i unigolion sy'n eithriadol o agored i niwed yn glinigol fod ar y safle. Dylid cynnig y rolau diogelaf sydd ar gael ar y safle iddynt, er mwyn eu galluogi i gadw at y gofynion cadw pellter cymdeithasol. Os yw natur eu rôl yn golygu na ellir rhoi mesurau rhesymol ar waith i gadw pellter cymdeithasol, rhaid i'r trefnwyr asesu'n ofalus a yw'r gwaith y bydd yr unigolyn yn ei wneud yn golygu lefel annerbyniol o risg. Gallai asesiadau gweithle unigol fod o gymorth yn hyn o beth, gan ddefnyddio Adnodd Asesu Risg COVID-19 ar gyfer y Gweithlu ar-lein. Dyma asesiad risg dau gam ar gyfer gweithwyr y GIG a Gofal Cymdeithasol, sy'n addas at ddefnydd yr holl staff sy'n agored i niwed neu mewn perygl o ddal COVID-19, gan gynnwys pobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a leiafrifoedd ethnig.

Dylai trefnwyr digwyddiadau sicrhau bod unrhyw newidiadau i'r trefniadau ar gyfer rheoli mynedfeydd, allanfeydd a chiwiau yn ystyried addasiadau rhesymol ar gyfer y rhai sydd eu hangen, gan gynnwys cwsmeriaid sy'n byw gydag anabled. Er enghraifft, cynnal mynediad i gerddwyr a pharcio i gwsmeriaid sy'n byw gydag anabled.

Dylai trefnwyr digwyddiadau fod yn hynod ystyriol o iechyd meddwl a llesiant pawb sy'n gweithio iddynt. Mae GIG Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar yr

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Evch i <https://llyw.cymru/creu-digwyddiadau-syn-cadw-covid-mewn-cof-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf. Gwybdaeth am [hawlfraint](#).



agweddau ar y coronafeirws sy'n ymwneud ag iechyd meddwl a llesiant y gellir dod o hyd iddynt yma: [Sut wyt ti? - Iechyd Cyhoeddus Cymru \(GIG Cymru\)](#).

## 17. Damweiniau a chymorth cyntaf

Mewn argyfwng, er enghraifft, damwain neu angen i wacáu, nid oes rhaid i bobl gadw pellter cymdeithasol pe bai hynny'n anniogel.

Dylai pobl sy'n rhoi cymorth i eraill mewn argyfwng roi sylw arbennig i fesurau diheintio yn syth wedyn, gan gynnwys golchi dwylo.

Dylai'r trefnwyr adolygu eu gweithdrefnau ar gyfer digwyddiadau ac argyfyngau er mwyn sicrhau eu bod yn cadw at y gofynion pellter cymdeithasol cyn belled ag y bo'n bosibl.

## 18. Mynd i safle'r digwyddiad a'i adael

Dylai'r trefnwyr annog y rhai sy'n gweithio ar y safle, gan gynnwys gwirfoddolwyr, i gadw at reolau diogelwch COVID wrth deithio i safle'r digwyddiad ac oddi yno.

Ceir rhagor o gyngor ar deithio yn ystod y pandemig yma: [Teithio a thrafnidiaeth: cyngor](#)

## 19. Glanhau

Mae prosesau glanhau rheolaidd a thrylwyr yn rhan hanfodol o greu digwyddiad ymwybodol o COVID-19.

Gellir dod o hyd i ganllawiau ar lanhau mewn lleoliadau nad ydynt yn rhai gofal iechyd o dan y pennawd glanhau yma: [Diogelu Cymru yn y gwaith](#).

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/creu-digwyddiadau-syn-cadw-covid-mewn-cof-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf. Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

## 20. Toiledau

Mae toiledau cyhoeddus yn fan cyfyng posibl ar safle digwyddiad/yn lleoliad digwyddiad a dylid nodi hynny yn yr asesiad risg. Dylid sicrhau bod toiledau cyhoeddus, boed hwy'n rhai cludadwy neu sefydlog, yn cael eu hawyru'n dda a'u rheoli'n ofalus i leihau trosglwyddiad COVID-19. Gweler y canllawiau ar ddarparu toiledau mwy diogel i'r cyhoedd yma: [Darparu toiledau mwy diogel i'r cyhoedd: coronafeirws](#).

Dylai'r rhai sy'n gyfrifol am reoli cyfleusterau'r toiledau fod yn ymwybodol fod y staff sy'n gwneud y gwaith yn arbennig o agored i COVID-19.

## 21. Symud o amgylch safle'r digwyddiad

Dylid sicrhau bod cyn lleied o symudiadau o amgylch safle'r digwyddiad â phosibl drwy annog y defnydd o radios/teleffonau a threfnu llif unffordd drwy'r safle a'r strwythurau. Dylid rheoli manau cyfyng yn ofalus er mwyn osgoi torfeydd.

## 22. Cydraddoldeb yn y gweithle

Mae gan gyflogwyr gyfrifoldebau penodol tuag at y rhai â nodweddion gwarchoddedig sy'n gweithio iddynt. Bydd hyn yn gofyn am ystyried a oes angen rhoi unrhyw fesurau neu addasiadau penodol ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth cydraddoldeb a hefyd i wneud yn siŵr nad yw unrhyw gamau i reoli'r risg o COVID yn cael effaith negyddol na ellir ei chyfiawnhau ar rai grwpiau o gymharu ag eraill. Gweler [Cynllunio a strategaeth cydraddoldeb](#).

Wrth roi'r canllawiau hyn ar waith, dylai cyflogwyr ystyried anghenion penodol gwahanol grwpiau o weithwyr neu unigolion.

Mae'n anghyfreithlon gwahaniaethu yn erbyn unrhyw un oherwydd **nodwedd warchoddedig** fel oedran, rhyw neu anabledd, hil neu ethnigrwydd boed hynny'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/creu-digwyddiadau-syn-cadw-covid-mewn-cof-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf. Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Mae cyfrifoldebau penodol ar gyflogwyr hefyd mewn perthynas â staff gydag anabledau a rhai sy'n famau newydd neu sy'n feichiog.

Camau y bydd eu hangen fel arfer:

- Deall ac ystyried amgylchiadau penodol unigolion â gwahanol nodweddion gwarchoddedig.
- Cynnwys gweithwyr y gallai eu **nodweddion gwarchoddedig** naill ai eu hamlygu i fwy o risg, neu olygu bod unrhyw fesurau rydych yn eu hystyried o bosibl yn amhriodol neu'n heriol iddynt, a chyfathrebu'n briodol â nhw.
- Ystyried a oes angen i chi roi unrhyw fesurau neu addasiadau penodol ar waith i ystyried eich dyletswyddau o dan y ddeddfwriaeth cydraddoldebau.
- Gwneud addasiadau rhesymol er mwyn osgoi sefyllfa lle y bydd gweithwyr gydag anabledau o dan anfantais ac **asesu'r risgiau iechyd a diogelwch i famau newydd neu fenywod beichiog**.
- Sicrhau nad yw'r camau a gymerir gennych yn cael effaith negyddol na ellir ei chyfiawnhau ar rai grwpiau o gymharu â grwpiau eraill, er enghraifft, y rhai â chyfrifoldebau gofalu neu'r rhai ag ymrwymadau crefyddol (a chydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010).

## 23. Cyfathrebu a hyfforddiant

Fel rhan o gynnal arferion gwaith sy'n ymwybodol o COVID-19, mae'n bwysig cyfathrebu'n glir â phawb am y rheolau sydd wedi'u rhoi ar waith, a rhoi sicrwydd iddynt. Mae cyfathrebu â'r holl bobl sy'n mynychu, cyn y digwyddiad a thra byddant ar y safle, yn chwarae rôl allweddol wrth gynyddu effaith y mesurau lliniaru a lleihau'r risg.

Dylid rhoi gwybodaeth i bawb sy'n dod i safle'r digwyddiad i weithio ac nad ydynt o bosibl yn gyfarwydd ag arferion gwaith COVID am y rheolau iechyd a rhoi copi ysgrifenedig o bolisi iechyd y safle iddynt. Yn ddelfrydol, dylai hyn ddigwydd cyn iddynt ddod i safle'r digwyddiad.

Mae'n hollbwysig bod stiwardiaid a gwirfoddolwyr ac ati yn cael y wybodaeth lawn am y mesurau lliniaru COVID a fydd ar waith yn y digwyddiad er mwyn hwyluso camau gorfodi.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Evch i <https://llyw.cymru/creu-digwyddiadau-syn-cadw-covid-mewn-cof-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf. Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

**Dylid defnyddio arwyddion** ar y safle i atgoffa'r gweithwyr a phawb arall ar y safle am yr angen i gadw pellter cymdeithasol ac i olchi dwylo'n rheolaidd.

## 24. Casglu data personol ar gyfer Profi Olrhain Diogelu GIG Cymru

Cefnogir y broses o agor yr economi yn dilyn brigiad o COVID-19 gan wasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu GIG Cymru. Mae'n ofyniad cyfreithiol i leoliadau, a'r rhai sy'n gyfrifol am drefnu digwyddiadau, gymryd mesurau rhesymol i gasglu manylion cyswllt y rhai sy'n mynychu safle'r digwyddiad (gan gynnwys y rhai sy'n gweithio iddynt, aelodau eraill o staff a mynychwyr) a chadw cofnod o'r manylion hyn am 21 diwrnod, gweler **Cadw cofnodion ynghylch staff, cwsmeriaid ac ymwelwyr: profi, olrhain, diogelu**. Rhaid i'r wybodaeth hon fod ar gael i wasanaeth Profi Olrhain Diogelu GIG Cymru ar gais. Mae angen iddynt wybod pwy allai fod wedi bod mewn cysylltiad â'r rhai sy'n profi'n bositif. Drwy ddilyn y Rheoliadau hyn, byddwch yn helpu i nodi pobl a allai fod wedi cael eu hamlygu i'r feirws.

Mae gan lawer o ddigwyddiadau sy'n gwerthu tocynnau systemau ar waith yn barod i gofnodi eu mynychwyr. Rhaid i'r rhai sy'n trefnu digwyddiadau heb docynnau gymryd pob cam rhesymol i gael gwybodaeth am y mynychwyr er mwyn helpu i ymladd y feirws. Ceir manylion llawn am sut i gasglu a chadw cofnodion yma: **Cadw cofnodion ynghylch staff, cwsmeriaid ac ymwelwyr: profi, olrhain, diogelu**. Rhaid i'r wybodaeth gyswllt a gasglwyd fod yn gywir. Rhaid bod **mesurau rhesymol** ar waith i sicrhau mai felly y mae.

Bydd angen ichi egluro i'ch cwsmeriaid pam y caiff y wybodaeth hon ei chasglu a'r hyn a ddisgwyllir ganddynt wrth iddynt gyrraedd y safle, boed hynny'n casglu data neu'n darparu manylion adnabod i gadarnhau'r data a ddarparwyd ymlaen llaw. Esboniwch yr hyn y bwriadwch ei wneud ac y gallai gael ei rannu â gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu GIG Cymru. Gallwch wneud hyn er enghraifft drwy esboniad ar lafar, neu ar eich gwefan neu drwy arddangos hysbysiad ar eich lleoliad. Mae deunydd ar gael i'ch helpu i wneud hyn **Busnes**

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/creu-digwyddiadau-syn-cadw-covid-mewn-cof-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf. Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

## Cymru: COVID-19 Cymorth i fusnes pecyn cymorth.

Dylech ddweud wrth bobl pan fyddwch yn rhannu eu manylion. Bydd hyn ond yn digwydd pan fydd achos, clwstwr neu frigiad o'r coronafeirws. Mae clwstwr neu frigiad o achosion yn golygu mwy nag un achos newydd o'r coronafeirws sydd wedi'u holrhain yn ôl i'ch safle. Bydd gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu GIG Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i gadarnhau a gawson nhw, ac unrhyw un yn eu parti, eu hamlygu. Os na fydd unigolyn am rannu ei fanylion o hyd, a bod dyletswydd arnoch i gasglu'r manylion hynny, ni ddylech ei adael i mewn i'r safle.

Ceir Ap y GIG a phosteri cod QR yn ymwneud ag ef, ond rhaid i'r defnydd o'r ap hwn fod yn ychwanegol at gasglu'r data ar gyfer pawb ar y safle yn hytrach na chymryd lle'r gwaith hwnnw.

Nid yw ap y GIG yn disodli'r gofyniad cyfreithiol i fusnesau yng Nghymru gasglu gwybodaeth gan gwsmeriaid, staff ac ymwelwyr, sy'n cael ei esbonio'n llawn yn y canllawiau cysylltiedig: **Cadw cofnodion ynghylch staff, cwsmeriaid ac ymwelwyr: profi, olrhain, diogelu.**

Gall y trefnwyr ystyried datblygu eu hap eu hunain i hwyluso'r gwaith casglu data er mwyn olrhain mynychwyr drwy broses gadarn.

Rhaid i'r trefnwyr sicrhau bod cyfraith diogelu data a gofynion cyfreithiol eraill mewn perthynas â data yn cael eu dilyn ac wrth gofnodi data, eu bod yn rhoi gwybod i bobl am unrhyw brofion sy'n cael eu gwneud a chwblhau asesiad o effaith ar ddata.

Mae'r data rydych yn eu casglu yn ddata personol, ac o dan gyfraith diogelu data, chi yw'r rheolydd data ar gyfer y data hynny. Mae hyn yn golygu bod rhwymedigaethau cyfreithiol penodol arnoch wrth ichi drafod y data hynny. Bydd angen ichi fodloni'ch hun eich bod yn cydymffurfio â chyfraith diogelu data a hynny er mwyn diogelu preifatrwydd eich staff, y cwsmeriaid a'r ymwelwyr. Dylid nodi y gallai'r sawl y gwelir nad ydynt yn cydymffurfio â rheoliadau cyfraith diogelu data fod yn destun cosbau ariannol. Gellir dod o hyd i wybodaeth am y gofynion hyn yma: **Cadw cofnodion ynghylch staff, cwsmeriaid ac ymwelwyr: profi, olrhain, diogelu.** Mae gan unigolion nifer o hawliau o dan gyfraith diogelu data (gweler **canllawiau Swyddfa'r Comisiynydd**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Evch i <https://llyw.cymru/creu-digwyddiadau-syn-cadw-covid-mewn-cof-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

**Gwybodaeth** i gael rhagor o fanylion). Rhaid ichi sicrhau y gallant arfer yr hawliau hyn.

Lle mae tocynnau ymlaen llaw ar gyfer digwyddiadau, dylid ystyried gofyn i'r mynychwyr lenwi holiadur archwilio iechyd cyn mynychu neu gyflwyno tystiolaeth o brawf COVID neu frechlyn diweddar. Argymhellir hefyd anfon neges destun na ddylai mynychwyr ddod i'r digwyddiad os oes ganddyn nhw, neu unrhyw un y maent yn byw gyda nhw, symptomau COVID-19, neu os yw gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu'r GIG wedi dweud wrthynt am hunanynysu fel cyswllt i achos positif.

Efallai yr hoffai'r trefnwyr hefyd ystyried gofyn i bawb sy'n dod i safle'r digwyddiad wneud prawf COVID cyflym (Dyfais Llif Unffordd) adref er mwyn helpu i ddiogelu eu hunain, pobl eraill ac er mwyn cadw'r digwyddiad yn ddiogel. Gellir archebu'r profion ar wefan Llywodraeth Cymru yn: **Cael profion llif unffordd COVID-19 cyflym os nad oes gennych symptomau.**

Ni ddylai neb sydd wedi cael prawf positif fynychu'r digwyddiad, dylai hunanynysu a threfnu prawf PCR dilynol i gadarnhau cyn gynted â phosibl. Dylai unrhyw un sy'n byw gyda nhw hunanynysu hefyd.

## 25. Danfon nwyddau

Dylai'r trefnwyr ystyried rheoli'r ffordd y danfonir nwyddau i'r safle a sut y dylid datgymalu'r cyfan ar ddiwedd y digwyddiad mewn ffordd ddiogel o ran COVID-19. Gallai hyn gynnwys nifer o fesurau, o drefnu gwahanol amseroedd mynediad a gadael i annog gyrwyr danfon nwyddau i aros yn eu cerbydau. Dylid hefyd ystyried llwytho a dadlwytho cerbydau yn unol ag arferion gwaith diogel o ran COVID-19.

Gweler:

- **Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch – Lles Gyrrwyr mewn Safleoedd Danfon a Chasglu**

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/creu-digwyddiadau-syn-cadw-covid-mewn-cof-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf. Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

- [Aros yn Ddiogel yn y Gwaith yn Ystod Pandemig COVID-19](#)
- [Gweithio mewn cerbyd neu o gerbyd: canllawiau ar gyfer y gweithle: y coronafeirws | LLYW.CYMRU](#)

## 26. Cyflenwyr a contractwyr

Dylai pob cyflenwr, contractwr a gweithiwr hunangyflogedig/llawrydd (yn ogystal â'r rhai a gyflogir ganddynt) sy'n dod i safle'r digwyddiad gael eu briffio'n llawn (ymlaen llaw os oes modd) ynghylch rheolau diogelu rhag COVID-19 y safle.

Dylai cytundeb i gydymffurfio â'r rheolau hyn ffurfio rhan o gontractau, lle bynnag y bo'n bosibl.

## 27. Masnachwyr ar arlwywyr ac ati

Dylai cydymffurfiaeth â rheolau diogelwch COVID safle'r digwyddiad ffurfio rhan o'r cytundeb rhwng trefnwyr a phawb sy'n gweithredu ar y safle, gan gynnwys masnachwyr, diddanwyr, arlwywyr ac ati. Dylai hyn gynnwys darparu asesiadau risg i'r trefnwyr sy'n cwmpasu eu gweithrediadau ar y safle, sy'n cynnwys mesurau clir mewn perthynas â rheoli mynychwyr ar y safle/yn y lleoliad er mwyn osgoi manau cyfyng.

Fel rhan o'r asesiadau risg unigol, dylai masnachwyr, manwerthwyr ac arlwywyr nodi sut y byddant yn rhoi'r canllawiau priodol ar waith ar gyfer yr hyn y byddant yn ei wneud ar y safle – er enghraifft, dylai masnachwyr weithredu i'r safonau a osodwyd ar gyfer manwerthu.

Mae'r canllawiau priodol y dylid eu dilyn fel a ganlyn:

- [ASB – Addasu Busnes Gwasanaeth Bwyd](#)
- [Canllawiau ar gyfer Twristiaeth a Lletygarwch](#)
- [UK Hospitality Guidance, Wales](#)
- [Canllawiau Manwerthu Diogel, Cymru](#)

## 28. Perfformiadau, gan gynnwys rhagymarferion,

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/creu-digwyddiadau-syn-cadw-covid-mewn-cof-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).



# hyfforddiant a rheoli llwyfannau, ystafelloedd gwisgo ac ardaloedd tebyg

Mae'r canllawiau ar sut i ymarfer, hyfforddi, perfformio a rheoli perfformwyr, cynulleidfaoedd a chyfranogwyr a lleihau'r risg o ledaenu COVID-19 i'r eithaf ar gael yn [Ymarfer, perfformio a chymryd rhan yn y celfyddydau perfformio: canllawiau ar gyfer dychwelyd yn raddol](#).

## 29. Cadw mynychwyr yn ddiogel

Lle caiff digwyddiadau eu caniatáu, rhaid cymryd pob mesur rhesymol i sicrhau y cedwir pellter cymdeithasol bob amser.

Dylid asesu capasiti ar sail maint gofod y digwyddiad a disgwyliadau o ymddygiad y gynulleidfa er mwyn sicrhau bod modd cadw pellter cymdeithasol bob amser.

Dylid hefyd gyfyngu arnynt er mwyn osgoi rhoi pwysau ar drafnidiaeth leol a chyhoeddus.

Mae'r Ganolfan ar gyfer Diogelu Seilwaith Cenedlaethol (CPNI) wedi cyhoeddi canllawiau ar addasu prosesau chwilio a sgrinio sy'n bodoli eisoes er mwyn ystyried y gofyniad i gadw pellter corfforol – gweler [COVID-19 and the easing of lockdown](#).

## 30. Lleoedd caeedig ac awyru

Fel y nodwyd yn rheoliad 57 o'r Rheoliadau, 'mae mangre o dan do os yw'n gaeedig neu'n sylweddol gaeedig o fewn yr ystyr a roddir gan reoliad reoliad 2 o [Reoliadau Mangreoedd Di-fwg etc \(Cymru\) 2007\(1\)](#)'

Mae awyru da yn hollbwysig wrth helpu i leihau'r risg o ledaenu coronafeirws, felly dylai trefnwyr digwyddiadau ganolbwyntio ar wella'r awyru cyffredinol ym mhob ardal gaeedig neu rannol gaeedig drwy wella'r llif o awyr iach neu drwy ddefnyddio systemau mecanyddol.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/creu-digwyddiadau-syn-cadw-covid-mewn-cof-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf. Gwybdaeth am [hawlfraint](#).



Mae **dyletswydd gyfreithiol** ar y sawl sy'n rheoli safle i sicrhau awyru effeithiol. Mae rhagor o gyngor ar aerdymheru ac awyru ar gael gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yma: **Ventilation and air conditioning during the coronavirus (COVID-19) pandemic**.

Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) wedi diweddarau ac wedi ehangu ei gyngor er mwyn helpu cyflogwyr i sicrhau awyru digonol yn eu gweithleoedd a'u safleoedd yn ystod y pandemig. Bydd y canllawiau yn eich helpu i nodi a chymryd camau gweithredu mewn ardaloedd sydd wedi'u hawyru'n wael. Mae hefyd yn rhoi arweiniad ar ffactorau eraill i'w hystyried wrth asesu'r risg o drosglwyddo aerosolau a chadarnhau a oes awyru digonol i leihau'r risg hon.

Dylech fod yn gwneud y gorau o'r awyr iach mewn lle a gellir gwneud hyn drwy'r canlynol:

- awyru naturiol
- awyru mecanyddol
- cyfuniad o awyru naturiol a mecanyddol, er enghraifft lle mae awyru mecanyddol yn dibynnu ar awyru naturiol i wneud y gorau o'r awyr iach

Darllenwch y **canllawiau wedi'u diweddarau ar aerdymheru ac awyru** a darganfod sut y gallwch sicrhau awyru digonol yn eich gweithle, sy'n helpu i ddiogelu gweithwyr a phobl eraill rhag trosglwyddo'r coronafeirws.

Mae cyngor ar gyfer gwasanaethau adeiladu ar gael hefyd, yn enwedig o ran awyru adeiladau, sy'n cael eu defnyddio ac wrth ddychwelyd i adeiladau sydd wedi'u cau gan y canlynol:

- **Sefydliad Peirianwyr Gwasanaethau Adeiladu Siartredig**
- **Cymdeithas Gwasanaethau'r Peirianwyr Adeiladu**
- **REHVA**

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/creu-digwyddiadau-syn-cadw-covid-mewn-cof-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf. Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

## **Awyru a'r amrywiolion newydd (manylion technegol i'r rhai sydd â systemau mecanyddol).**

Mae awyru yn fesur lliniaru allweddol i reoli trosglwyddiad pellgyrhaeddol (dros 2m) COVID-19 drwy aerosolau rhwng pobl sy'n rhannu'r un gofod dan do. Nid yw awyru'n debygol o effeithio'n sylweddol ar drosglwyddiad agos drwy ddefnyddiau ac aerosolau (o fewn 1 a 2 m) na throsglwyddiad trwy gyswllt ag arwynebau (hyder uchel).

Gallai'r llwyth feirysol uwch sy'n gysylltiedig â phobl sydd ag unrhyw amrywiolyn newydd sy'n peri pryder arwain at oblygiadau sylweddol o ran trosglwyddo drwy'r aer gan fod y gwaith modelu gwyddonol blaenorol yn awgrymu bod llwyth feirysol yn benderfynydd mawr o ran y risgiau trosglwyddo yn yr aer. Wrth i amrywiolion newydd sy'n peri pryder ddod i'r amlwg, dywedodd SAGE bod awyru digonol ar gyfer y rhan fwyaf o weithleoedd ac amgylcheddau cyhoeddus yn gyfwerth â chyfradd llif o 8-10 l/s/person ar sail cyfraddau defnydd y dyluniad, ond mae'r canllawiau ar gyfer rhai amgylcheddau'n caniatáu ar gyfer cyfraddau llif is o 5 l/s/person. Ers i amrywiolion newydd sy'n peri pryder ddod i'r amlwg, mae SAGE wedi argymhell y dylid cynyddu cyfraddau'r llif awyru a grybwyllwyd uchod gan ffactor o 1.7 (70%) lle bo'n bosibl i gyfrif am y cynnydd mewn trosglwyddadwyedd.

Efallai nad yw systemau awyru rhai adeiladau presennol a hŷn wedi'u dylunio i gyrraedd y safonau presennol ac efallai y bydd angen mesurau lliniaru ychwanegol. Fel mesur rhagofal, argymhellir bod awyru'n cael ei gynnwys fel rhan o asesiad risg diogel rhag COVID mewn unrhyw weithle neu amgylchedd dan do cyhoeddus a bod y mesurau lliniaru angenrheidiol yn cael eu mabwysiadu.

Mae cynnal tymereddau cyfforddus a gwlybanaeth uwchlaw gwlybanaeth gymharol o 40-60% yn debygol o fod o fantais i leihau gallu'r feirws i oroesi yn y rhan fwyaf o adeiladau. Fodd bynnag, mae hyn yn debygol o fod yn llai pwysig na'r gyfradd awyru a grybwyllwyd uchod (hyder canolig).

Os yw adeiladau wedi bod ar gau neu os oedd llai o bobl wedi bod yn gweithio ynddynt, gall dŵr yn y system droi'n ferddwr oherwydd diffyg defnydd, gan

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://llyw.cymru/creu-digwyddiadau-syn-cadw-covid-mewn-cof-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf. Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

gynyddu'r risg o glefyd y Llengfilwyr. Mae canllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn ymwneud â rheoli dŵr a legionella ar gael [yma](#).

## Camau y bydd eu hangen fel arfer:

- Archwilio unrhyw gyflenwadau dŵr – bydd angen gadael i'r dŵr redeg ar ôl ailgysylltu'r prif gyflenwad (oherwydd iddo gael ei gau pan oedd y safle ar gau) er mwyn fflysio i ffwrdd unrhyw weddillion microbiolegol neu gemegol a allai fod wedi cronni tra'r oedd wedi'i ddatgysylltu. Mae'r Arolygiaeth Dŵr Yfed, sef y Rheoleiddwyr a'r arbenigwyr technegol yng Nghymru a Lloegr, wedi llunio'r [cyngor hwn ar gynnal ansawdd dŵr yfed wrth adfer y cyflenwadau dŵr ar ôl cau dros dro yn sgil brigiad o COVID-19](#)
- Cadarnhau a oes angen ichi wasanaethu neu addasu systemau awyru, er enghraifft, fel na fyddant yn awtomatig yn gostwng lefelau awyru o ganlyniad i lefelau defnydd is na'r cyffredin.
- Nid oes angen addasu'r rhan fwyaf o systemau aerdymheru. Fodd bynnag, lle bo systemau'n gwasanaethu sawl adeilad, neu os nad ydych yn siŵr, dylid gofyn am gyngor gan eich peirianwyr neu gynghorwyr gwresogi, awyru ac aerdymheru (HVAC).
- Er enghraifft, symud unrhyw ffaniau o weithfannau i osgoi ailgylchredeg yr aer.
- Agor drysau a ffenestri yn aml lle bo hynny'n bosibl ac yn ddiogel er mwyn sicrhau mwy o awyru.

Yn achos strwythurau dros dro, gellid sicrhau awyru drwy godi neu waredu waliau ochr.

Wrth ddefnyddio manau awyr agored, dylid defnyddio gorchuddion ffisegol, adlenni, gasebos neu bebyll mawrion mewn ffordd sy'n sicrhau eu bod yn unol â'r cyngor iechyd y cyhoedd cyfredol. Dylai effeithiau golau'r haul, cyfeiriad a dwyster y gwynt, pellter cymdeithasol a golchi dwylo effeithiol oll gael eu hystyried.

Yn benodol, os ydynt ar gau ar bob ochr ac yn y to/nenfwd, byddant yn cael eu hystyried a'u trin fel amgylchedd mewnol a dylid eu trin felly. Mewn gwrthgyferbyniad, os ydynt ar agor ar yr ochr (neu ar agor mwy na 50% yn unol

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Evch i <https://llyw.cymru/creu-digwyddiadau-syn-cadw-covid-mewn-cof-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf. Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

â **Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau Di-fwg (Cymru) 2020**), byddant yn cael eu hystyried a'u trin fel amgylchedd allanol. Os bydd pebyll mawrion neu rywbeth tebyg yn cael eu defnyddio, mae'n hanfodol iddynt fod yn rhan o asesiadau risg y safle sydd wedi'u cynnwys mewn trefniadau glanhau a'u monitro er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r **gofynion cadw pellter cymdeithasol**.

Ceir canllawiau ar awyru yn y canlynol:

- **UKHospitality guidance**
- **Canllawiau'r Economi Ymwelwyr**

## 31. Rheoli Nifer y Mynychwyr

Wrth ymgynghori â'r rhai sy'n gyfrifol am ddiogelwch a stiwardio, dylai'r trefnwyr ystyried y gofynion cadw pellter cymdeithasol a'r risgiau o orlenwi wrth gynllunio a, lle bo angen, gyfyngu ar y niferoedd a ganiateir ar y safle, gan gynnwys staff – neu mewn ardal benodol – ar unrhyw adeg benodol. Y ffordd orau o gyflawni hyn yw drwy nifer y tocynnau, yn dibynnu ar y math o ddigwyddiad. Fodd bynnag, o ran digwyddiadau lle nad oes tocynnau, bydd angen i'r trefnwyr ystyried defnyddio dulliau eraill o gyfathrebu, megis arwyddion, ynghyd â threfniadau stiwardio cadarn ac effeithiol ar y safle, er mwyn rheoli'r niferoedd sy'n mynychu yn unol â'r capasiti y cytunwyd arno.

Efallai y bydd angen rhoi sylw arbennig i reoli nifer y mynychwyr mewn digwyddiadau lle gallai alcohol fod yn bresennol a cheir rheoliadau cysylltiedig â digwyddiadau mewn perthynas â darparu lletygarwch ar safleoedd.

Fel y nodwyd uchod, yn achos "digwyddiadau awyr agored wedi'u rheoleiddio", mae'r rheoliadau hefyd yn gymwys i unrhyw ddarpariaeth lletygarwch arfaethedig, ond, os darperir bwyd a diodydd, gellir eu harchebu a'u casglu o'r tu mewn, gyda mesurau lliniaru llawn ar waith (cadw pellter cymdeithasol mewn ciwiau, gorchuddion wyneb ac ati) a mynd â nhw i'w bwyta neu i'w hyfed yn yr awyr agored.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Evch i <https://llyw.cymru/creu-digwyddiadau-syn-cadw-covid-mewn-cof-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf. Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

## 32. Trafnidiaeth i fynychwyr

Dylai'r trefnwyr drafod trafndiaeth i safle'r digwyddiad ac oddi yno gyda'r Grŵp Cynghori ar Ddiogelwch Lleol, neu grŵp cyfatebol, a dylent ddisgwyl, gan fod y cyhoedd yn poeni am gadw pellter cymdeithasol, y gallai mwy o bobl deithio i'w digwyddiad yn y car yn hytrach na defnyddio trafndiaeth gyhoeddus. Gallai hyn olygu bod angen trefniadau parcio ceir ychwanegol neu gamau lliniaru eraill.

Dylai'r trefnwyr ystyried effaith gronnol niferoedd mawr sy'n teithio i ddigwyddiad ac oddi yno ar systemau trafndiaeth lleol. Os ystyrir bod y niferoedd yn "sylweddol" yng nghyd-destun cyffredinol yr ardal leol, dylid rhoi sylw penodol i drafndiaeth i fynychwyr a'r risg bosibl. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, dylai'r trefnwyr gydgyssylltu ag Awdurdodau Lleol, busnesau cyfagos, gweithredwyr teithio ac awdurdodau trafndiaeth lleol, yn ogystal â threfnwyr unrhyw ddigwyddiadau eraill sy'n digwydd yn y lleoliad neu o'i amgylch gyda'r bwriad o leihau'r effaith i'r eithaf a chynnal amgylchedd diogel o ran COVID. Gallai hyn olygu addasu amseroedd mynediad a gadael neu drefnu amseroedd gwahanol; trefnu llwybrau teithio unffordd rhwng hybiau trafndiaeth a lleoliadau; neu gynghori'r mynychwyr i ddefnyddio mathau penodol o drafndiaeth neu osgoi llwybrau tramwyo penodol.

Dylid ystyried gwerthu tocynnau ymlaen llaw i reoli parcio. Neu, gallai dull dilyn yr wyddor neu odrifau/eilrifau gael ei ddefnyddio i sut y bydd ceir sy'n cyrraedd y meysydd parcio ar adegau gwahanol.

Dylai'r trefnwyr fod yn ymwybodol hefyd bod eu cyfrifoldebau fel darparwyr gwasanaethau yn parhau i fod ar waith o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 – gweler **The Equality Act 2010 (Statutory Duties) (Wales) Regulations 2011**. Mae hyn yn golygu ei bod yn bwysig parhau i sicrhau bod unrhyw ddigwyddiad o fewn cyrraedd rhesymol y bobl sy'n byw gydag anabledd a bod unrhyw gamau cynllunio sy'n gysylltiedig â COVID-19 yn gwarchod yr hygyrchedd presennol, megis lleoedd parcio a llwybrau mynediad hygyrch o amgylch safle.

Gweler hefyd:

- **Teithio a Thrafndiaeth:**

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/creu-digwyddiadau-syn-cadw-covid-mewn-cof-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

- [Cyngor Cyhoeddus ar Deithio'n Ddiogel](#)

## 33. Ardaloedd eistedd

Mewn digwyddiadau lle mae'r gynulleidfa ar eu heistedd, fel cynadleddau, cyfarfodydd a theatrau, rhaid cymryd pob mesur rhesymol i sicrhau y cedwir pellter cymdeithasol ym mhobman, a dylid dilyn y canllawiau ar gyfer eistedd yn lleoliadau'r celfyddydau perfformio yma: [Rheoli cynulleidfaedd a pherfformiadau](#)

Gellir hefyd ddod o hyd i'r prif bwyntiau i'w dilyn ar gyfer eistedd yma: [Diogelu Cymru: canllawiau i dwristiaeth a lletygarwch](#)

Os yw'r rheoliadau'n darparu ar gyfer digwyddiadau a ddisgrifir fel "eistedd fel arfer", gall hyn gynnwys seddau dros dro lle byddai mynychwyr mewn digwyddiad yn eistedd fel rheol. Fodd bynnag, os defnyddir seddau dros dro, mae hyn yn parhau i fod yn ddarostyngedig i unrhyw gyfyngiadau yn ymwneud â mynychwyr ar eu heistedd, gan gynnwys, os yw'n berthnasol, cadw pellter cymdeithasol (a rhaid i'r mynychwyr aros yn eu seddau drwy'r amser ac eithrio i fynd i'r toiledau neu i brynu bwyd a diod ac, ar ôl eu prynu, dylid eu bwyta a'u hyfed yn eu seddau).

## 34. Mynedfeydd ac allanfeydd

Mae angen rheoli'r broses o gael pobl i mewn ac allan o leoliadau, boed hynny'n arddangosfa, yn gynhadledd neu'n babell fawr ac ati yn ofalus, gan fod y rhain yn fannau cyfyng posibl lle gallai fod yn anos rheoli pellter cymdeithasol. Dylid ystyried hyn fel rhan o gynllun rheoli mynychwyr y digwyddiad, a dylid ymgynghori â'r rhai sy'n gyfrifol am reoli diogelwch a swyddogion ac ati.

Dylid rhoi sylw arbennig i osgoi torfeydd mewn mannau cyfyng ar adegau allweddol, fel amseroedd agor neu gau'r digwyddiad.

Mae angen bod yn ofalus i ddiogelu'r rhai sy'n gweithio yn y mannau hyn er mwyn lleihau'r cyswllt y maent yn ei gael â'r mynychwyr drwy gymryd camau fel

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/creu-digwyddiadau-syn-cadw-covid-mewn-cof-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf. Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

gwirio tocynnau'n electronig a gofyn i'r mynychwyr wagio'u bagiau mewn blychau wrth y siecbwyntiau diogelwch.

## 35. Allanfa frys

Dylai fod gan bob digwyddiad gynllun gwacáu rhag ofn y bydd argyfwng yn codi lle bydd angen symud y gweithwyr a'r mynychwyr i ffwrdd o ardal neu o safle'n gyfan gwbl. Dylid gwneud hyn gan ymgynghori â'r rhai sy'n gyfrifol am reoli diogelwch a swyddogion.

Dylid nodi y dylai diogelwch y cyhoedd fod yn flaenoriaeth yn y sefyllfaoedd hynny ac er y dylid cadw pellter cymdeithasol os yw hynny'n rhesymol ymarferol, gallai ffactorau eraill fod yn drech na hynny.

## 36. Sicrwydd i'r gymuned

Dylai'r trefnwyr fod yn ymwybodol fod cymunedau lleol weithiau'n amheus o ymwelwyr a'r risgiau yr ystyriant eu bod yn cyflwyno o ran dod â'r haint i'r ardal. Lle mae digwyddiadau'n cael eu cynnal mewn ardaloedd lle y gellid effeithio ar drigolion lleol, dylent gymryd camau i roi gwybod iddynt am y mesurau y maent yn eu rhoi ar waith i gadw pawb yn ddiogel.

## Atodiad 1: ystyriaethau ar gyfer digwyddiadau sy'n cynnwys anifeiliaid a chylchoedd sioe

Mae'n bosibl y bydd angen ystyriaethau ychwanegol mewn digwyddiadau sy'n cynnwys anifeiliaid:

Trwyddedu a rheoliadau iechyd anifeiliaid APHA: Dylai'r trefnwyr ystyried sut y gellir rheoli'r gofynion hyn i gadw pellter cymdeithasol a diogelwch y rhai sy'n trin anifeiliaid. Oherwydd y rheoliadau bioddiogelwch ar gyfer ardaloedd anifeiliaid, mae gofynion ychwanegol ar gyfer mannau diheintio a golchi dwylo eisoes a chaiff y defnydd o hylif diheintio dwylo yn yr ardaloedd hyn yn lle mesurau bioddiogelwch ei wahardd. Gweler: [Rheoliadau Lles Anifeiliaid \(Trwyddedu](#)

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/creu-digwyddiadau-syn-cadw-covid-mewn-cof-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf. Gwybdaeth am [hawlfraint](#).



## Arddangosfeydd Anifeiliaid) (Cymru) 2020.

Cyfyngiadau rheoli clefydau anifeiliaid: Rhaid i'r trefnwyr ystyried y sefyllfa sydd ohoni o ran clefydau anifeiliaid yng Nghymru a chadarnhau pa gyfyngiadau rheoli clefydau allai fod ar waith ar gyfer anifeiliaid, os o gwbl, a hynny ar lefel genedlaethol neu leol. Er enghraifft, gwaharddiadau ar grynoadau o rywogaethau penodol o anifeiliaid. Gweler y dudalen Iechyd Anifeiliaid ar Llyw.Cymru i gael rhagor o wybodaeth am y cyfyngiadau rheoli clefydau anifeiliaid presennol. Gellir dod o hyd i wybodaeth am crynoadau adar yng Nghymru yn y ddolen isod:

### Casgliadau adar: trwydded gyffredinol ar gyfer casgliadau

## Sioeau anifeiliaid bach ac ati

Un nodwedd mewn rhai digwyddiadau yw ardaloedd anifeiliaid bach lle gall yr ymwelwyr gerdded o amgylch a gweld yr anifeiliaid yn cael eu beirniadu. Bydd angen rhoi rheolau cadw pellter cymdeithasol ar waith yn yr ardaloedd hyn gydag arwyddion clir i gyfeirio pobl at system unffordd o amgylch yr arddangosion. Mae angen asesu a ddylid caniatáu anwesu anifeiliaid yn y sefyllfaoedd hyn ar wahân oherwydd gallai fod yn gyswllt i drosglwyddo'r feirws. Dylid ystyried y ffaith y bydd statws brechu ymwelwyr o wahanol oedrannau yn newid a dylid ystyried y goblygiadau pe caniateid i ymwelwyr, gan gynnwys plant (nad ydynt wedi cael brechiad o bosibl), anwesu'r anifeiliaid.

## Stablu

Bydd angen cymryd pob rhagofal rhesymol i osgoi croeshalogi lle caiff stablau ac ardaloedd eraill eu defnyddio gan fwy nag un person. Dylid glanhau'r stablau'n drwyadl a'u diheintio rhwng pob defnydd.

## Arwynebau nad oes modd eu glanhau

Nid oes modd diheintio rhai defnyddiau a ddefnyddir mewn digwyddiadau sy'n

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/creu-digwyddiadau-syn-cadw-covid-mewn-cof-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf. Gwybdaeth am [hawlfraint](#).



cynnwys da byw, fel pren. Dylid rheoli'r gwaith o godi'r ardaloedd hyn i leihau cyswllt rhwng gweithwyr a dylid ystyried defnyddio deunyddiau eraill mewn mannau (fel gatiau) sy'n debygol o gael eu cyffwrdd gan weithwyr neu'r cyhoedd. Gellid ystyried gorchuddio'r ardaloedd hyn â deunydd y mae modd ei ddiheintio. Gweler glanhau: [Diogelu Cymru yn y gwaith](#).

## **Bioggiogelwch:**

Mae'n hanfodol, wrth fodloni gofynion dioggiogelwch iechyd y cyhoedd, fod y dulliau rheoli clefydau anifeiliaid a'r mesurau bioggiogelwch fel y'u rhagnodwyd gan y Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid yn cael eu cynnal. Dylai ceidwaid da byw barhau i ddilyn y gofynion rheoleiddiol o ran adrodd a chofrestru da byw wrth symud eu hanifeiliaid i grynoadau. Mae prosesau rhoi gwybod am glefydau hysbysadwy a amheuir ac ymchwilio iddynt yn parhau a chynghorir ceidwaid i gysylltu â'u milfeddyg neu APHA os bydd ganddynt amheuron o glefyd. Bydd mesurau cadw pellter ychwanegol yn parhau i fod ar waith os bydd y staff yn cynnal ymchwiliadau. Gweler [cyngor Llywodraeth Cymru ar gyfer perchnogion da byw a cheffylau](#).

## **Ar gyfer digwyddiadau maes glas:**

Gweler y canlynol:

- [Egwyddorion ar gyfer canolfannau trefol a mannau gwyrdd diogel](#)
- [Diweddariad Coronafeirws \(Covid-19\)](#)
- [Coronavirus \(COVID-19\): advice on accessing green spaces safely](#) (DEFRA)
- [COVID-19: Cleaning historic surfaces](#) (Historic England)

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/creu-digwyddiadau-syn-cadw-covid-mewn-cof-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf. Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

## Atodiad 2: diffiniadau

### Yn eithriadol o agored i niwed yn glinigol:

Bydd pobl sy'n eithriadol o agored i niwed yn glinigol wedi cael llythyr i'w hysbysu eu bod yn rhan o'r grŵp hwn, neu byddant wedi cael gwybod hynny gan eu meddyg teulu a byddant wedi cael cyngor blaenorol i warchod.

Ceir canllawiau ar y grŵp hwn yn:

**Canllawiau ar ddiogelu pobl a ddiffinnir yn glinigol ar sail feddygol fel rhai eithriadol o agored i niwed yn sgil y coronafeirws (COVID-19) – y cynllun 'gwarchod' gynt**

### Pobl sydd mewn mwy o berygl:

Mae'r bobl sydd mewn mwy o berygl o COVID-19 yn cynnwys pobl 70 oed neu'n hŷn neu'r bobl gyda rhai cyflyrau iechyd isorweddol. Caiff aelodau o'r grŵp hwn eu rhestru yma:

#### Unigolion sydd mewn mwy o berygl o'r coronafeirws

- Cydymffurfiaeth â'r holl ganllawiau perthasol ar fod yn ymwybodol o Covid-19 – yn dibynnu ar y math o ddigwyddiad, gallai hyn gynnwys **Digwyddiadau Awyr Agored**, **y Celfyddydau Perfformio** neu **Ddigwyddiadau Chwaraeon**
- Cadarnhad nad yw'r digwyddiad yn achosi risg i iechyd y cyhoedd.

## Atodiad 3: Canllawiau Eraill

### Canllawiau Llywodraeth Cymru ar COVID

- **Coronafeirws (COVID-19)**
- **Diogelu Cymru yn y gwaith**

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/creu-digwyddiadau-syn-cadw-covid-mewn-cof-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf. Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

- **Busnesau a chyflogwyr: coronafeirws**
- **Canllawiau ar gyfer y gweithle i gyflogwyr a chyflogeion: COVID-19**
- **Cynllun ychwanegiad at dâl salwch statudol ar gyfer COVID-19**
- **Hunanynysu**
- **Cadw'n ddiogel a chadw pellter cymdeithasol**
- **Canllawiau ar gyfer busnesau twristiaeth a lletygarwch: coronafeirws**
- **Gorchuddion wyneb: canllawiau i'r cyhoedd**
- **Gorchuddion wyneb: canllawiau ar y mesurau i'w cymryd gan gyflogwyr a rheolwyr mangreoedd**
- **Arwyddion diogelwch a chadw pellter corfforol i gyflogwyr: coronafeirws**
- **Cynllunio a strategaeth cydraddoldeb**
- **Darparu toiledau mwy diogel i'r cyhoedd: coronafeirws**
- **Deddfwriaeth Mangreoedd Di-fwg Cymru**
- **Coronafeirws (COVID-19): cyngor i berchenogion da byw a cheffylau**

## **GIG/Profion/Apiâu**

- **Profi Orlhain Diogelu**
- **Ap COVID-19 y GIG**
- **Canllawiau ar ddiogelu pobl a ddiffinnir yn glinigol ar sail feddygol fel rhai eithriadol o agored i niwed yn sgil y coronafeirws (COVID-19) – y cynllun 'gwarchod' gynt**

## **Diogelu Data**

- **Cadw cofnodion ynghylch staff, cwsmeriaid ac ymwelwyr: profi, olrhain, diogelu**

## **Danfôn nwyddau**

- **Drivers' welfare at delivery and collection sites during the coronavirus (COVID-19) pandemic**
- **Gweithio mewn neu o gerbyd: canllawiau'r gweithle y coronafeirws**

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/creu-digwyddiadau-syn-cadw-covid-mewn-cof-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf. Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

## Teithio

- [Teithio a thrafnidiaeth: cyngor](#)
- [Teithio'n ddiogel \(coronafeirws\): canllawiau i'r cyhoedd](#)

## Lletygarwch

- [Ailagor ac addasu eich busnes bwyd yn ystod COVID-19](#)
- [Canllawiau ar gyfer busnesau twristiaeth a lletygarwch: coronafeirws](#)
- [UKHospitality guidance](#)
- [Cyngor Carafannau Cenedlaethol](#)
- [Clwb Carafannau a Chartrefi Modur](#)

## Manwerthu

- [Manwerthwyr: canllawiau coronafeirws](#)

## Digwyddiadau Busnes

- [E-ganllaw y Gymdeithas Lleoliadau Digwyddiadau](#)
- [Cymdeithas y Diwydiant Cyfarfodydd](#)
- [Y Gymdeithas Trefnwyr Digwyddiadau](#)
  - [Y Gymdeithas Ryngwladol Cynadleddau a Chonfensiynau](#)
  - [Y Gymdeithas Ryngwladol Canolfannau Cynadledda](#)
  - [Cymdeithas Fyd-eang y Diwydiant Arddangos](#)
  - [Cymdeithas Cyflenwyr a Gwasanaethau Digwyddiadau](#)
  - [Partneriaeth Ymweliadau a Digwyddiadau Busnes](#)

## Lleoliadau

- [Cyrchfannau a lleoliadau diwylliant a threftadaeth: Canllawiau ar gyfer dychwelyd yn raddol](#)

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/creu-digwyddiadau-syn-cadw-covid-mewn-cof-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf. Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

## Digwyddiadau Awyr Agored

- [Fforwm y Diwydiant Digwyddiadau](#)
- [The Purple Guide](#) (sy'n cynnwys canllawiau COVID ar gyfer digwyddiadau awyr agored yn ogystal â gwyliau)

## Y Celfyddydau Perfformio

- [Canllawiau i'r Celfyddydau Perfformio](#)
- [Canllawiau ar Wyliau](#)

## Syracasau

- [Pecyn Offer Diogelwch Syrcas](#)

## Gwylwyr

- [Chwaraeon a hamdden: canllawiau ar gyfer dychwelyd yn raddol](#)

## Digwyddiadau Chwaraeon

- [Canllaw i Ddiogelwch ar Sail Chwaraeon 'Green Guide'](#)
- [Chwaraeon a hamdden: canllawiau ar gyfer dychwelyd yn raddol](#)

## Canllawiau Cyffredinol

- [Busnesau a chyflogwyr: coronafeirws](#)
- [Canllawiau ar gyfer y gweithle i gyflogwyr a chyflogeion: COVID-19](#)
- [Egwyddorion ar gyfer canolfannau trefol a mannau gwyrdd diogel](#)
- [COVID-19: Glanhau a diheintio arwynebau hanesyddol](#)
- [Egwyddorion ar gyfer canolfannau trefol a mannau gwyrdd diogel](#)

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/creu-digwyddiadau-syn-cadw-covid-mewn-cof-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf. Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

## Cyngor y Ganolfan ar gyfer Diogelu Seilwaith Cenedlaethol (CPNI)

- [Pob cyngor diogelwch ar COVID-19](#)
- [Cyngor ar systemau rheoli mynediad](#)
- [Cyngor ar warchodwyr diogelu](#)
- [Cyngor ar ragchwiliadau gelyniaethus](#)
- [Ymgyrch camau gweithredu yn y gweithle COVID-19 \(anfon negeseuon am gadw pellter a hylendid\)](#)

## Cyngor y Swyddfa Diogelwch Gwrthderfysgaeth Genedlaethol

- [Cyngor Diogelwch Cyffredinol](#)
- [Canllawiau ar Leoedd Gorlawn](#)

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/creu-digwyddiadau-syn-cadw-covid-mewn-cof-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf. Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

## Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we [Creu digwyddiadau sy'n cadw COVID mewn cof](#) a lawrlwythwyd.

Ewch i <https://llyw.cymru/creu-digwyddiadau-syn-cadw-covid-mewn-cof-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein [datganiad hygyrchedd](#) i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://llyw.cymru/creu-digwyddiadau-syn-cadw-covid-mewn-cof-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.  
Gwybdaeth am [hawlfraint](#).